Home Office

# COD E

## Wedi'i ddiwygio

### Cod Ymarfer ar gyfer recordio cyfweliadau sain gyda phobl dan amheuaeth

# COD F

## Wedi’i ddiwygio

### Cod Ymarfer ar gyfer recordio cyfweliadau ar fideo gyda sain gyda phobl dan amheuaeth

Codau E ac F

Home Office

# Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE)

---

# COD E

# Wedi'i Ddiwygio

## Cod Ymarfer ar gyfer recordio sain cyfweliadau gyda phobl dan amheuaeth

# COD F

# Wedi'i Ddiwygio

## Cod Ymarfer ar gyfer recordio cyfweliadau ar fideo gyda sain gyda phobl dan amheuaeth

Llundain: TSO

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), rhan o Williams Lea, ac ar gael o:

**Ar-lein www.tsoshop.co.uk**

**Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost**
TSO
Blwch PO 29, Norwich, NR3 1GN
Archebion ffôn/Ymholiadau cyffredinol: 0870 600 5522
Archebion ffacs: 0870 600 5533
E-bost: customer.services@tso.co.uk Ffôn testun: 0870 240 3701

**TSO@Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill**

Cyhoeddwyd gyda chaniatâd y Swyddfa Gartref ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

© Hawlfraint y Goron 2018 Cedwir pob hawl.

Gallwch ailddefnyddio'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) am ddim ar unrhyw fformat neu gyfrwng, dan amodau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, Richmond, Surrey TW9 4DU, neu

anfonwch e-bost at psi@nationalarchives.gsi.gov.uk ISBN 978 0 11 341407 9

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig ar gyfer y Llyfrfa J003463179 c0.75 07/18

E

DEDDF YR HEDDLU A THYSTIOLAETH DROSEDDOL 1984

COD E

WEDI'I DDIWYGIO

# COD YMARFER AR GYFER RECORDIO SAIN CYFWELIADAU GYDA PHOBL DAN AMHEUAETH

**Cychwyniad - Trefniadau Trosiannol**

Mae'r Cod hwn yn berthnasol i gyfweliadau a gynhaliwyd ar ôl 00.00 ar 31 Gorffennaf 2018, er efallai y dechreuodd y cyfweliad cyn yr amser hwnnw.

E

**Cynnwys - Cod E**


**1 Cyffredinol . . . . . 3**

*Nodiadau Arweiniad*. . . . . 5

**2 Cyfweliadau a materion eraill i'w recordio ar sain dan y Cod hwn. . . . . 6**

(A) Gofyniad i ddefnyddio dyfais recordio sain awdurdodedig pan fydd ar gael. . . . . 6
(B) Ystyr 'swyddog perthnasol' . . . . . 6
(C) Dyletswyddau'r 'swyddog perthnasol' a'r cyfwelydd . . . . . 7
(D) Monitro cyfweliadau o bell. . . . . 7
(E) Y defnydd o ddolen fyw - Nid yw'r cyfwelydd yn bresennol yn yr un orsaf â'r sawl sydd yn y ddalfa . . . . . 8

*Nodiadau Arweiniad*. . . . . 8

**3 Recordiad o'r cyfweliad yn defnyddio dyfais cyfrwng recordio symudol . . . . . 10**

(A) Recordio a selio prif recordiadau - cyffredinol. . . . . 10
(B) Dechrau'r cyfweliadau. . . . . 10
(C) Cyfweliadau gyda rhai dan amheuaeth y tybir bod ganddynt nam ar y clyw . . . . . 11
(D) Gwrthwynebiadau a chwynion gan y sawl sydd dan amheuaeth . . . . . 11
(E) Newid y cyfrwng recordio . . . . . 11
(F) Cymryd seibiant yn ystod cyfweliad . . . . . 11
(G) Offer recordio yn torri . . . . . 12
(H) Tynnu'r cyfrwng recordio o'r recordiwr . . . . . 12
(I) Terfynu'r cyfweliad . . . . . 12
(J) Ar ôl y cyfweliad . . . . . 12
(K) Diogelu'r Prif Recordiad . . . . . 12
(i) Cyffredinol . . . . . 12
(ii) Torri sêl prif recordiad ar gyfer gweithdrefnau troseddol . . . . . 12
(iii) Torri sêl y prif recordiad: achosion eraill . . . . . 13
(iv) Dogfennaeth. . . . . 13

*Nodiadau Arweiniad*. . . . . 13

**4 Recordiad cyfweliad yn defnyddio dyfais rhwydwaith recordio digidol diogel. . . . . 14**

(A) Cyffredinol. . . . . 14
(B) Dechrau'r cyfweliadau. . . . . 15
(C) Cyfweliadau gyda rhai dan amheuaeth y tybir bod ganddynt nam ar y clyw . . . . . 15
(D) Gwrthwynebiadau a chwynion gan y sawl sydd dan amheuaeth . . . . . 15
(E) Cymryd seibiant yn ystod cyfweliad . . . . . 15
(F) Offer recordio yn torri . . . . . 15
(G) Terfynu'r cyfweliad . . . . . 16
(H) Ar ôl y cyfweliad . . . . . 16
(I) Diogelwch cofnodion cyfweliad rhwydwaith digidol diogel . . . . . 16

*Nodyn Arweiniad* . . . . . 16

**ATODIAD: PARAGRAFF 2.4(c)(iii) – PEDWAR MATH O DROSEDD DDITIADWY LLE GALLAI'R CYFWELYDD BENDERFYNU CYMRYD COFNOD YSGRIFENEDIG O GYFWELIAD GWIRFODDOL YN RHYWLE ARALL YN HYTRACH NA MEWN GORSAF HEDDLU PAN NA ELLIR DEFNYDDIO DYFAIS RECORDIO CLYWEDOL AWDURDODEDIG.. . . . . 17**

Rhan 1: Pedwar math o drosedd dditiadwy benodol - dau amod . . . . . 17
Rhan 2: Darpariaethau eraill yn berthnasol i holl gyfweliadau sydd ynghlwm â'r Atodiad hwn . . . . . 18

*Nodiadau Arweiniad*. . . . . 18

## 1 Cyffredinol

1.0 Rhaid defnyddio'r gweithdrefnau yn y Cod hwn yn deg, yn gyfrifol, gyda pharch tuag at y bobl y maent yn berthnasol iddynt a heb wahaniaethu anghyfreithlon. Dan Ddeddf Gydraddoldeb 2010, adran 149 (Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus), rhaid i heddluoedd, wrth gyflawni eu swyddogaethau, dalu sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiadau eraill a waherddir o dan y Ddeddf, i hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r sawl nad ydynt, a meithrin perthynas dda rhwng y bobl hynny. Mae'r Ddeddf Gydraddoldeb hefyd yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i swyddogion yr heddlu wahaniaethu yn erbyn, aflonyddu neu erlid unrhyw un ar sail y 'nodweddion gwarchodedig', sef oed, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth wrth ddefnyddio eu pwerau. Gweler *Nodyn 1B*.

1.1 Mae'n rhaid i'r Cod Ymarfer hwn fod ar gael yn hwylus ar gyfer dibenion ymgynghori gan:

- swyddogion yr heddlu
- staff yr heddlu
- pobl yn y ddalfa
- y cyhoedd.

1.2 Nid yw'r Nodiadau Arweiniad sy'n gynwysedig yn ddarpariaethau o'r Cod hwn. Maent yn cynnig arweiniad i swyddogion yr heddlu ac eraill ynglŷn â'i ddefnydd a'i ddehongliad.

1.3 Nid oes unrhyw beth yn y Cod hwn a all ddisodli gofynion Cod C, y Cod Ymarfer ar gyfer cadw, trin a holi pobl gan swyddogion yr heddlu.

1.4 Disgrifir y cyfweliadau a materion eraill sy'n berthnasol i'r Cod hwn yn adran 2. Nid yw'r Cod hwn yn berthnasol i waith cynnal a recordio y canlynol yng Nghymru a Lloegr:

- cyfweliadau gydag unigolion yn y ddalfa dan adran 41 o, neu Atodlen 7 i, Ddeddf Terfysgaeth 2000, a
- chwestiynu ar ôl cyhuddo unigolyn a awdurdodwyd dan adran 22 Deddf Gwrthderfysgaeth 2008.

Rhaid recordio'r rhain ar fideo gyda sain yn unol â darpariaethau'r Cod Ymarfer unigol a gyhoeddwyd *dan baragraff 3 o Atodlen 8 o'r Ddeddf Terfysgaeth 2000 a dan adran 25 Deddf Gwrthderfysgaeth 2008*. Yn ystod cyfweliad neu gwestiynu dan y Cod hwn, os daw'n amlwg y dylai'r cyfweliad neu gwestiynu gael ei gynnal dan God gwahanol, dylid parhau â'r cyfweliad yn unol â'r Cod hwnnw'n unig.

Sylwer: *Nid yw* darpariaethau'r Cod hwn a Chod F sy'n arwain y gwaith o gynnal a recordio'r cyfweliadau, yn berthnasol i gyfweliadau gyda thystion, neu gymryd datganiadau ganddynt.

1.5 Yn y Cod hwn:

- mae 'oedolyn priodol' yn golygu'r un fath â'r ystyr yng Nghod C, *paragraff 1.7*.
- mae 'unigolyn bregus' yn golygu'r un fath â'r ystyr a ddisgrifir yng Nghod C, *paragraff 1.13(d).*
- mae 'cyfreithiwr' yn golygu'r un fath â'r ystyr yng *Nghod C, paragraff 6.12*.
- mae 'cyfweliad' yn golygu'r un fath â'r ystyr yng *Nghod C, paragraff 11.1A*.

1.5A Mae darpariaethau'r Cod hwn sy'n gofyn recordio sain cyfweliadau gyda'r rhai sydd dan amheuaeth a darpariaethau Cod F sy'n caniatáu recordio ar fideo ar yr un pryd yn darparu diogelwch:

- i'r rhai dan amheuaeth yn erbyn recordio anghywir o'r geiriau a ddefnyddiwyd wrth iddynt gael eu cwestiynu a'u hymddygiad yn ystod y cyfweliad; ac;
- i gyfwelwyr yr heddlu yn erbyn honiadau di-sail gan y rhai dan amheuaeth, neu ar eu rhan, ynglŷn â sut y cynhaliwyd y cyfweliad a beth ddigwyddodd yn ystod y cyfweliad a all fel arall ymddangos yn gredadwy.

Felly, rhaid recordio cyfweliadau yn agored i roi hyder yn ei ddibynadwyedd fel cofnod diduedd a manwl gywir o'r cyfweliad.

E

1.5B Mae darpariaethau Cod C:

- *adrannau 10 ac 11*, a'r *Nodiadau Arweiniad* priodol yn berthnasol i'r modd y cynhelir cyfweliadau sy'n berthnasol i'r Cod hwn.
- *paragraffau 11.7 i 11.14* yn berthnasol dim ond pan mae angen cofnod ysgrifenedig.

1.5C Mae Cod C, *paragraffau 10.10, 10.11* ac *Atodiad C* yn disgrifio'r cyfyngiad ar ddod i gasgliadau niweidiol gan fethiant neu wrthodiad y sawl sydd wedi'i arestio i ddweud unrhyw beth am ei ymglymiad â'r drosedd pan gaiff ei gyfweld neu ar ôl cael ei gyhuddo neu gael gwybod y gallai gael ei erlyn, a sut mae'n effeithio ar delerau'r rhybudd ac yn pennu a ellir cyhoeddi rhybudd arbennig dan adrannau 36 a 37 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994, a gan bwy.

1.6 Yn y Cod hwn:

(a) mewn perthynas â lle mae cyfweliad gyda'r sawl dan amheuaeth sy'n berthnasol i'r Cod hwn neu (fel y ceir achos o'r fath) God F yn cael ei gynnal a'i recordio (gweler *Nodyn 1A*):

(i) mae '*awdurdodedig*' mewn perthynas â'r dyfeisiau recordio a ddisgrifir yn (ii) a (iii) yn golygu unrhyw ddyfais o'r fath y mae'r prif swyddog wedi awdurdodi cyfwelwyr dan ei gyfarwyddyd a'i reolaeth i'w defnyddio i recordio'r cyfweliad dan sylw yn y lle mewn cwestiwn, os yw'r cyfwelydd dan sylw wedi'i hyfforddi i osod a gweithredu'r ddyfais, yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr ac yn unol â'r gweithdrefnau gweithredu sy'n ofynnol gan y prif weithredwr;

(ii) mae '*dyfais cyfrwng recordio symudol*' yn golygu dyfais recordio sydd, pan mae wedi'i gosod ac yn gweithio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a'r gweithdrefnau gweithredu gofynnol gan y prif swyddogion, yn defnyddio cyfrwng recordio symudol, ffisegol (megis tâp magnetig, disg gweledol neu gerdyn cof caled) er mwyn creu recordiad clywedol neu fideo gyda sain glir a manwl gywir (fel y ceir achos o'r fath) o'r cyfweliad dan sylw a ellir ei chwarae'n ôl a'i gopïo gan ddefnyddio'r ddyfais honno neu unrhyw ddyfais arall. Rhaid cael arwydd neu ddangosydd ar y ddyfais sy'n amlwg i'r sawl dan amheuaeth pan mae'r ddyfais yn recordio;

(iii) Mae '*dyfais rhwydwaith recordio digidol diogel*' yn golygu dyfais recordio sydd, pan mae wedi'i gosod ac yn gweithio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a gweithdrefnau gweithredu gofynnol y prif swyddogion, yn galluogi recordiad clywedol clir a manwl gywir neu fideo gyda sain (fel y ceir achos o'r fath) o'r cyfweliad dan sylw, i'w gyflawni a'i storio gan ddefnyddio storfa ansymudol, fel ffeil ddigidol neu gyfres o ffeiliau o'r fath a ellir eu trosglwyddo'n ddiogel gan gysylltiad â gwifren neu ddi-wifr i system weinydd ffeiliau rwydwaith o bell (a all fod yn storfa ar sail cwmwl) sy'n sicrhau bod mynediad at recordiadau cyfweliadau at bob diben yn cael eu rheoli'n llym a'u cyfyngu i'r rheiny y mae eu mynediad, naill ai'n gyffredinol neu mewn achosion penodol, yn hanfodol. Mae enghreifftiau mynediad yn cynnwys chwarae unrhyw recordiad gwreiddiol ar ei hyd neu ran ohono a gwneud un neu fwy o gopïau o'r recordiad gwreiddiol hwnnw i gyd neu ran ohono. Rhaid cael arwydd neu ddangosydd ar y ddyfais sy'n amlwg i'r sawl dan amheuaeth pan mae'r ddyfais yn recordio.

(b) mae 'person dynodedig' yn golygu rhywun ar wahân i swyddog yr heddlu, sydd â phwerau a dyletswyddau penodedig a roddwyd iddynt neu a orfodwyd arnynt drwy ddynodiad dan adran 38 neu 39 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002.

(c) mae unrhyw gyfeiriad at swyddog yr heddlu yn cynnwys unigolyn a ddynodwyd yn gweithredu'r pwerau a'r dyletswyddau a roddwyd neu a orfodwyd arno gan y dynodiad.

1.7 Mae adran 2 y Cod hwn yn nodi'r gofyniad i ddefnyddio dyfais recordio awdurdodedig, os oes un ar gael, i recordio cyfweliad un sydd dan amheuaeth a phan na ellir defnyddio dyfais o'r fath, mae'n caniatáu'r 'swyddog perthnasol' (gweler *paragraff 2.3(c)*) i benderfynu recordio'r cyfweliad yn ysgrifenedig yn unol â Chod C. Ar gyfer y rhai sydd dan amheuaeth ac yn cael eu cadw yn y ddalfa, y 'swyddog perthnasol' yw swyddog y ddalfa ac ar gyfer cyfweliadau gwirfoddol, pennir y swyddog yn ôl y math o drosedd (ditiadwy neu grynodeb yn unig) a lle mae'r cyfweliad yn cael ei gynnal (gorsaf heddlu neu rywle arall). Mae darpariaethau adrannau 3 a

4 yn ymdrin â chynnal a recordio cyfweliadau yn ôl y math o ddyfais recordio awdurdodedig a ddefnyddir. Mae adran 3 yn berthnasol i *ddyfeisiau cyfrwng recordio symudol* (gweler *paragraff 1.6(a)(i)*) ac mae adran 4 yn berthnasol i *ddyfeisiau rhwydwaith recordio digidol diogel* (gweler *paragraff 1.6(a)(ii)*). Mae'r Atodiad yn berthnasol pan gynhelir cyfweliad gwirfoddol yn unrhyw le arall heblaw am orsaf heddlu ynglŷn ag un o'r pedwar math o droseddau a nodir yn yr Atodiad. Ar gyfer cyfweliadau o'r fath, y swyddog perthnasol yw'r cyfwelydd.

1.8 Nid oes dim yn y Cod hwn yn atal swyddog y ddalfa, neu swyddog arall y rhoddwyd gwarchodaeth iddo o'r sawl sydd yn y ddalfa, rhag caniatáu i aelod o staff yr heddlu nad yw'n unigolyn dynodedig rhag cynnal gweithdrefnau neu dasgau unigol yn yr orsaf heddlu, os yw'r gyfraith yn caniatáu hynny. Fodd bynnag, mae'r swyddog yn dal yn gyfrifol am sicrhau bod y gweithdrefnau a'r tasgau'n cael eu cyflawni'n gywir, yn unol â'r Cod hwn. Rhaid i unrhyw aelod o'r fath o staff yr heddlu fod yn:

(a) unigolyn a gyflogir gan heddlu ac sydd dan reolaeth neu gyfarwyddyd Prif Swyddog yr heddlu hwnnw; neu

(b) yn cael ei gyflogi gan unigolyn y mae gan yr heddlu gytundeb i ddarparu gwasanaethau mewn perthynas ag unigolyn sydd wedi'i arestio neu sydd fel arall yn y ddalfa

1.9 Rhaid i unigolion dynodedig ac aelodau eraill o staff yr heddlu dalu sylw dyledus i unrhyw ddarpariaethau perthnasol yn y Codau Ymarfer.

1.10 Bydd unrhyw gyfeiriad at lyfr cofnod yn cynnwys unrhyw lyfr adrodd swyddogol neu ddyfais cofnodi electronig a ddosbarthwyd i swyddogion yr heddlu neu staff yr heddlu sy'n galluogi rhywun i wneud cofnod sy'n ofynnol gan unrhyw ddarpariaeth o'r Cod hwn (ond nad yw'n recordiad clywedol sy'n berthnasol i *baragraff 2.1*) ac ymdrin ag o yn unol â'r ddarpariaeth honno. Mae cyfeiriadau yn y Cod hwn at gofnodion ysgrifenedig, ffurflenni a llofnodion yn cynnwys cofnodion a ffurflenni electronig a chadarnhad electronig sy'n dynodi'r sawl sy'n gwneud y cofnod neu'n llenwi'r ffurflen.

Rhaid i brif swyddogion fod yn fodlon ynghylch cywirdeb a diogelwch y dyfeisiau, cofnodion a ffurflenni y mae'r paragraff hwn yn berthnasol iddynt, a bod defnydd o'r dyfeisiau, cofnodion a ffurflenni hynny yn bodloni deddfwriaeth diogelu data perthnasol.

1.11 Mae cyfeiriadau at swyddog y ddalfa yn cynnwys y rheiny sy'n cyflawni dyletswyddau swyddog y ddalfa fel y nodir ym *mharagraff 1.9 Cod C*.

1.12 *Ni ddefnyddiwyd*.

1.13 Nid oes dim yn y Cod hwn yn gofyn am gofnodi neu ddatgelu pwy yw'r swyddogion neu staff yr heddlu sy'n cynnal cyfweliadau os yw'r cyfwelydd yn credu'n rhesymol y gall cofnodi neu ddatgelu eu henwau eu rhoi mewn perygl. Mewn achosion o'r fath, dylai'r swyddogion a'r staff ddefnyddio gwarant neu rifau adnabod eraill ac enw eu gorsaf heddlu. Bydd achosion o'r fath a'r rhesymau drostynt yn cael eu cofnodi yng nghofnod y ddalfa neu yn llyfr cofnod y cyfwelydd. (Gweler *Nodyn 1C*.)

***Nodiadau Arweiniad***

*1A Dylai cyfwelydd nad yw'n sicr, neu y mae ganddo unrhyw amheuaeth, a yw man neu leoliad heblaw am orsaf heddlu yn addas i gynnal cyfweliad gydag unigolyn ifanc neu fregus, gan ddefnyddio dyfais recordio benodol, ymgynghori â swyddog ar lefel sarjant neu uwch am gyngor. Gweler Cod C paragraffau 3.21, 3.22 a Nodyn 3I*

*1B Ym mharagraff 1.0, dan Ddeddf Gydraddoldeb 2010, adran 149, y 'nodweddion gwarchodedig perthnasol' yw: oed, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd/cred a rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Am ragor o arweiniad a chyngor manwl ar y Ddeddf Gydraddoldeb, gweler: https://www.gov.uk/guidance/equality-act-2010-guidance.*

*1C Diben paragraff 1.13 yw amddiffyn rhai sydd wedi ymwneud ag ymchwiliadau i droseddau cyfundrefnol difrifol neu arestio pobl sydd dan amheuaeth sy'n dreisgar iawn lle mae yno wybodaeth ddibynadwy y gallai'r sawl a arestiwyd, neu ei gymdeithion, fygwth neu achosi niwed i'r rhai dan sylw. Lle ceir amheuaeth, dylid ymgynghori gyda swyddog ar lefel arolygydd neu uwch.*

*1D Tynnir sylw at y darpariaethau a nodir yng Nghod C ynglŷn â'r materion i'w hystyried wrth benderfynu a yw'r sawl sydd wedi'i gadw yn ddigon da ei iechyd i'w gyfweld.*

E

## 2 Cyfweliadau a materion eraill i'w recordio ar sain dan y Cod hwn

### *(A) Gofyniad i ddefnyddio dyfais recordio sain awdurdodedig pan fydd ar gael*

2.1 Yn ddarostyngedig i baragraff 2.3, os oes dyfais recordio awdurdodedig (gweler *paragraff 1.6(a)*) sy'n gweithio'n iawn ac ystafell recordio neu leoliad arall ar gael (gweler *Nodyn 1A*) sy'n addas ar gyfer defnyddio'r ddyfais honno, yna bydd y ddyfais honno yn cael ei defnyddio i gofnodi'r materion canlynol:

(a) unrhyw gyfweliad gydag unigolyn sydd wedi'i rybuddio yn unol â Chod C, adran 10, mewn perthynas ag unrhyw drosedd grynodeb neu unrhyw drosedd dditiadwy, sy'n cynnwys unrhyw drosedd brofadwy mewn unrhyw ffordd, pan:

(i) gaiff yr unigolyn hwnnw (yr un dan amheuaeth) ei gwestiynu am ei ymglymiad neu ymglymiad honedig gyda'r drosedd ac mae'n bosibl nad yw wedi'i gyhuddo nac wedi cael gwybod y caiff ei erlyn am y drosedd honno; a

(ii) fel eithriad, gofynnir rhagor o gwestiynau i unigolyn am unrhyw drosedd ar ôl iddo gael ei gyhuddo o'r drosedd honno, neu ar ôl dweud wrtho y gellir ei erlyn am y drosedd honno (gweler Cod C, *paragraff 16.5 a* *Nodyn 2C*).

(b) pan mae unigolyn wedi'i gyhuddo o unrhyw drosedd, neu os rhoddir gwybod iddo y gellir ei erlyn am unrhyw drosedd, yn cael gwybod am unrhyw ddatganiad ysgrifenedig neu gyfweliad gydag unigolyn arall ac yn cael copi gwir o'r datganiad ysgrifenedig neu os tynnir ei sylw at gynnwys recordiad y cyfweliad yn unol â Chod C, paragraff 16.4 a *Nodyn 2D*.

Gweler *Nodyn 2A*

2.2 Caiff y materion i gyd a ddisgrifir ym *mharagraff 2.1* eu recordio gyda sain, gan gynnwys cymryd ac adrodd yn ôl unrhyw ddatganiad fel sy'n berthnasol.

2.3 Gwneir cofnod ysgrifenedig o'r materion a ddisgrifwyd ym *mharagraff 2.1(a*a *(b*yn unol â Chod C, *adran 11*, dim ond os

(a) *nad* oes dyfais recordio awdurdodedig sy'n gweithio (gweler *paragraff 1.6(a)*) ar gael; neu

(b) mae dyfais o'r fath ar gael ond nad oes lleoliad sy'n addas i ddefnyddio'r ddyfais honno i wneud recordiad clywedol o'r mater dan sylw ar gael; ac

(c) mae'r 'swyddog perthnasol' a ddisgrifir ym *mharagraff 2.4* yn ystyried, ar seiliau rhesymol, na ddylid gohirio'r cyfweliad arfaethedig neu (fel y ceir achos o'r fath) barhad o'r cyfweliad neu unrhyw gam gweithredu arall nes bod dyfais recordio awdurdodedig sy'n gweithio ac ystafell gyfweld neu leoliad arall addas yn dod ar gael (gweler *Nodyn 2E*) ac yn penderfynu y gwneir cofnod ysgrifenedig;

(d) os, yn unol â *pharagraff 3.9*, mae'r sawl dan amheuaeth neu'r oedolyn priodol ar ei ran, yn gwrthwynebu recordio sain y cyfweliad ac mae'r 'swyddog perthnasol' a ddisgrifir ym *mharagraff 2.4*, ar ôl ystyried natur ac amgylchiadau'r gwrthwynebiad (gweler *Nodyn 2F*), yn penderfynu y gwneir datganiad ysgrifenedig;

(e) mewn achos o'r unigolyn yn y ddalfa yn gwrthod mynd i ystafell gyfweld addas, neu aros yno, ac yn unol â Chod C *paragraffau 12.5* a *12.11*, mae swyddog y ddalfa yn datgan y bydd y cyfweliad yn cael ei gynnal mewn cell ac yn ystyried na ellir defnyddio dyfais recordio awdurdodedig yn ddiogel yn y gell.

Sylwer: Pan dybir bod gan y sawl dan amheuaeth nam ar y clyw, nid yw'r paragraff hwn yn effeithio ar y gofyniad arall ym *mharagraffau 3.7* a *4.4* i'r cyfwelydd wneud nodyn ysgrifenedig o'r cyfweliad ar yr un pryd â'r recordiad sain.

### *(B) Ystyr 'swyddog perthnasol'*

2.4 Ym *mharagraff 2.3(c)*:

(a) os caiff yr unigolyn sydd i'w gyfweld ei arestio yn unrhyw le arall heblaw am orsaf heddlu am drosedd a chyn iddo gyrraedd gorsaf heddlu, mae cyfweliad brys yn unol â *Chod C paragraff 11.1* yn angenrheidiol i osgoi un neu fwy o'r risgiau a grybwyllwyd yn *is-baragraffau (a)* i *(c)* y paragraff hwnnw, mae'r 'swyddog perthnasol' yn golygu'r *cyfwelydd*, a allai fod y swyddog arestio, y mae'n rhaid iddo ystyried yr amser, lle a pha mor frys ydi'r cyfweliad arfaethedig.

b) os yw'r unigolyn dan sylw wedi'i gymryd i orsaf heddlu ar ôl cael ei arestio yn rhywle arall am drosedd neu os caiff ei arestio am drosedd mewn gorsaf heddlu ar ôl mynychu'n wirfoddol ac yn cael ei gadw yn yr orsaf heddlu honno neu yn rhywle arall dan law cwnstabl, mae'r 'swyddog perthnasol' yn golygu *swyddog y ddalfa yn yr orsaf lle cafodd carchariad yr unigolyn ei awdurdodi ddiwethaf*. Rhaid i swyddog y ddalfa ystyried natur yr ymchwiliad ac yn unol â *Chod C paragraff 1.1*, sicrhau yr ymdrinnir â'r sawl sydd yn y ddalfa yn gyflym, a'i ryddhau cyn gynted ag mae'r angen i'w garcharu yn peidio.

(c) Mewn achos cyfweliad gwirfoddol (gweler *Cod C paragraff 3.21* i *3.22*) sy'n cael ei gynnal:

(i) mewn gorsaf heddlu ac mae'r drosedd dan sylw yn drosedd dditiadwy, mae'r 'swyddog perthnasol' yn golygu *swyddog ar lefel sarjant neu uwch*, mewn ymgynghoriad â'r swyddog ymchwilio;

(ii) mewn gorsaf heddlu ac mae'r drosedd dan sylw yn drosedd dditiadwy, mae'r 'swyddog perthnasol' yn golygu'r *cyfwelydd* mewn ymgynghoriad â'r swyddog ymchwilio os yw'r ddau yn wahanol;

(iii) yn rhywle arall heblaw am orsaf heddlu ac mae'r drosedd yn un o'r pedwar math o drosedd dditiadwy sy'n bodloni'r amodau yn Rhan 1 o Atodiad y Cod hwn, mae'r 'swyddog perthnasol' yn golygu'r *cyfwelydd* mewn ymgynghoriad â'r swyddog ymchwilio, os yw'r ddau yn wahanol.

(iv) yn rhywle arall heblaw am orsaf heddlu ac mae'r drosedd dan sylw yn drosedd dditiadwy nad yw'n un o'r pedwar math o drosedd dditiadwy sy'n bodloni'r amodau yn Rhan 1 o Atodiad y Cod hwn, mae'r 'swyddog perthnasol' yn golygu *swyddog ar lefel sarjant neu uwch*, mewn ymgynghoriad â'r swyddog ymchwilio.

(v) yn rhywle arall heblaw am orsaf heddlu ac mae'r drosedd dan sylw yn drosedd grynodeb yn unig, mae'r 'swyddog perthnasol' yn golygu'r *cyfwelydd* mewn ymgynghoriad â'r swyddog ymchwilio, os yw'r ddau yn wahanol.

Gweler *Nodyn 2B - Tabl crynodeb - swyddog perthnasol ar gyfer cyfweliadau gwirfoddol*

***(C) Dyletswyddau'r 'swyddog perthnasol' a'r cyfwelydd***

2.5 Pan wneir cofnod ysgrifenedig, yn unol â *pharagraff 2.3*:

(a) rhaid i'r swyddog perthnasol:

(i) gofnodi'r rhesymau dros beidio â gwneud recordiad sain a'r dyddiad a'r amser y gwnaed y penderfyniad ym *mharagraff 2.3(c)* neu (fel sy'n berthnasol) *baragraff 2.3(d)*; a

(ii) sicrhau bod y sawl dan amheuaeth yn cael gwybod y bydd cofnod ysgrifenedig yn cael ei wneud;

(b) rhaid i'r cyfwelydd sicrhau bod y cofnod ysgrifenedig yn cynnwys:

(i) y dyddiad a'r amser y gwnaed y penderfyniad ym *mharagraff 2.3(c)* neu (fel sy'n berthnasol) *baragraff 2.3(d)*, pwy wnaeth y penderfyniad ac ymhle mae'r penderfyniad wedi'i gofnodi, a'r

(ii) ffaith bod y sawl dan amheuaeth wedi cael gwybod.

(c) gwneir cofnod ysgrifenedig yn unol â Chod C, *adran 11*;

Gweler *Nodyn 2B*

***(D) Monitro cyfweliadau o bell***

2.6 Os oes gan yr ystafell gyfweld, neu'r lleoliad arall lle cynhelir y cyfweliad, y cyfleusterau sy'n galluogi cyfweliadau sy'n cael eu recordio'n glywedol i gael eu monitro o bell wrth iddynt gael eu cynnal, rhaid i'r cyfwelydd sicrhau bod y rheiny sydd dan amheuaeth, eu cynrychiolwyr cyfreithiol ac unrhyw oedolion priodol yn gwbl ymwybodol o beth mae hyn yn ei olygu ac nad oes posibilrwydd gwrando ar sgyrsiau braint. Gyda hyn mewn cof, dylid cymhwyso'r dulliau diogelu canlynol:

(a) Dylai'r system fonitro o bell fod yn gweithio dim ond pan mae'r ddyfais recordio sain ymlaen.

E

(b) Dylai'r offer ymgorffori golau, sy'n glir i bawb yn yr ystafell gyfweld, sy'n goleuo'n awtomatig pan fydd y monitro o bell yn cael ei weithredu.

(c) Rhaid i ystafelloedd cyfweld a lleoliadau eraill sydd ag offer monitro o bell gynnwys hysbysiad, sy'n cael ei arddangos yn amlwg, ac sy'n cyfeirio at y gallu i fonitro o bell a'r ffaith y bydd y golau rhybudd yn goleuo pryd bynnag y bydd monitro yn digwydd.

(d) Ar ddechrau'r cyfweliad, rhaid i'r cyfwelydd egluro cynnwys yr hysbysiad i'r sawl sydd dan amheuaeth ac os yn bresennol, y cyfreithiwr a'r oedolyn priodol, a dylid recordio sain yr eglurhad hwnnw.

(e) Dylai'r ffaith bod cyfweliad, neu ran o gyfweliad, wedi'i fonitro o bell gael ei gofnodi yng nghofnod dalfa'r sawl sydd dan amheuaeth neu, os nad yw'r sawl sydd dan amheuaeth wedi'i gadw yn y ddalfa, yn llyfr cofnod y cyfwelydd. Dylai'r cofnod hwnnw gynnwys enwau'r swyddogion a oedd yn monitro a diben y monitro (e.e. at ddibenion hyfforddiant, i gynorthwyo gydag ymchwiliad, etc.)

***(E) Y defnydd o ddolen fyw - Nid yw'r cyfwelydd yn bresennol yn yr un orsaf â'r sawl sydd yn y ddalfa***

2.7 Mae Cod C *paragraffau 12.9A* a *12.9B* yn nodi'r amgylchiadau, os cânt eu bodloni, sy'n caniatáu cyfweliad gydag unigolyn yn y ddalfa gan ddefnyddio dolen fyw gan swyddog yr heddlu nad yw'n bresennol yn yr orsaf heddlu lle cedwir y sawl yn y ddalfa. Mae'r darpariaethau hyn hefyd yn nodi dyletswyddau a chyfrifoldebau swyddog y ddalfa, y swyddog y rhoddwyd gwarchodaeth gorfforol iddo o'r sawl dan amheuaeth a'r cyfwelydd, a'r addasiadau sy'n berthnasol i sicrhau bod cyfweliad o'r fath yn cael ei gynnal a'i recordio gyda sain yn unol â'r Cod hwn neu (fel y ceir achos o'r fath) ei recordio gyda fideo yn unol â Chod F.

***Nodiadau Arweiniad***

*2A Nid oes unrhyw beth yn y Cod hwn â'r bwriad o atal gwaith recordio clywedol yn ôl penderfyniad yr heddlu yng ngorsafoedd heddlu neu unrhyw le arall pan gaiff unigolyn ei gyhuddo o drosedd, neu'n cael gwybod y gellir ei erlyn am drosedd, neu ei fod yn ymateb ar ôl cael ei gyhuddo neu ei hysbysu.*

*2B Gall penderfyniad a wneir yn unol â pharagraff 2.3 i beidio â recordio sain cyfweliad am unrhyw reswm fod yn destun sylw yn y llys. Dylai'r 'swyddog perthnasol' sy'n gyfrifol fod yn barod i gyfiawnhau'r penderfyniad hwnnw.*

*Tabl: Crynodeb o baragraff 2.4(c) - swyddog perthnasol ar gyfer cyfweliadau gwirfoddol:*

| | ***Lleoliad y cyfweliad gwirfoddol*** | ***Math o drosedd*** | ***Swyddog Perthnasol*** |
|---|---|---|---|
| *(i)* | *Gorsaf heddlu* | *Unrhyw drosedd dditiadwy.* | *Sarjant neu uwch+* |
| *(ii)* | *Gorsaf heddlu* | *Unrhyw drosedd grynodeb yn unig* | *Cyfwelydd+* |
| *(iii)* | *Rhywle arall heblaw am orsaf heddlu* | *Math o drosedd dditiadwy a ddiffinnir yn yr Atodiad.* | *Cyfwelydd+* |
| *(iv)* | *Rhywle arall heblaw am orsaf heddlu* | *Math o drosedd dditiadwy na ddiffinnir yn yr Atodiad.* | *Sarjant neu uwch+* |
| *(v)* | *Rhywle arall heblaw am orsaf heddlu* | *Crynodeb yn unig.* | *Cyfwelydd+* |

*+ = mewn ymgynghoriad â'r swyddog ymchwilio.*

*2C Mae Cod C yn nodi'r amgylchiadau y gellir cwestiynu'r sawl dan amheuaeth am drosedd ar ôl cael ei gyhuddo ohoni.*

E

*2D Mae Cod C yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn pan dynnir sylw unigolyn at ddatganiad gan unigolyn arall, ar ôl cael ei gyhuddo. Un ffordd o ddod â chynnwys cyfweliad gydag unigolyn arall i sylw sawl dan amheuaeth fyddai chwarae recordiad o'r cyfweliad hwnnw iddo. Mae'n bosibl na ellir cwestiynu'r unigolyn am y datganiad na'r recordiad o'r cyfweliad oni bai y caniateir hyn yn unol â pharagraff 16.5 Cod C.*

*2E Dylid trefnu cyfweliad gwirfoddol ar gyfer amser a lle y gellir recordio ei sain a galluogi'r dulliau diogelu a'r gofynion a nodir ym mharagraffau 3.21 i 3.22B Cod C gael eu rhoi ar waith. Fel rheol, byddai'n rhesymol gohirio'r cyfweliad i alluogi recordio ei sain oni bai y byddai gohirio yn debygol o gyfaddawdu canlyniad y cyfweliad neu'r ymchwiliad. Er enghraifft, os oes seiliau i amau y byddai'r sawl dan amheuaeth yn defnyddio'r oediad i greu eglurhad dieuog, dylanwadu ar dystion neu ddrysu tystiolaeth ffisegol.*

*2F Mae gwrthwynebiadau at ddiben paragraffau 2.3(d) a 3.9 i fod yn berthnasol i'r gwrthwynebiadau ar sail credoau go iawn ac onest y sawl dan amheuaeth ac i ganiatáu swyddogion i ddefnyddio eu hawl i benderfynu y dylid gwneud cofnod ysgrifenedig o'r cyfweliad yn ôl yr amgylchiadau sydd ynghlwm â'r sawl dan amheuaeth a'r ymchwiliad. Ni fyddai gwrthwynebiadau sy'n ymddangos yn ofer ac sydd â'r bwriad o rwystro neu oedi'r ymchwiliad yn berthnasol.*

E

## 3 Recordiad o'r cyfweliad yn defnyddio dyfais cyfrwng recordio symudol

### *(A) Recordio a selio prif recordiadau - cyffredinol*

3.1 Wrth ddefnyddio dyfais cyfrwng recordio symudol (gweler *paragraff 1.6(a)(i)*), bydd un recordiad, sef y prif recordiad, yn cael ei selio gyda'r sawl dan amheuaeth yn bresennol. Bydd ail recordiad yn cael ei ddefnyddio fel copi gwaith. Y prif recordiad yw unrhyw un o'r recordiadau a wnaed gan beiriant aml-ddec/gweithredu neu'r unig recordiad a wnaed gan beiriant un dec/gweithredu. Y copi gwaith yw unrhyw un o'r recordiadau eraill a wnaed gan beiriant aml-ddec/gweithredu neu gopi o'r prif recordiad a wnaed gan beiriant un dec/gweithredu.

3.2 Diben selio'r prif recordiad cyn iddo adael presenoldeb y sawl dan amheuaeth yw er mwyn sefydlu ei hyder bod cywirdeb y recordiad yn cael ei gynnal. Os defnyddir peiriant un dec/gweithredu, rhaid gwneud copi gwaith o'r prif recordiad ym mhresenoldeb y sawl dan amheuaeth a heb i'r prif recordiad adael ei olwg. Bydd y copi gwaith yn cael ei ddefnyddio i wneud rhagor o gopïau os bydd angen.

### *(B) Dechrau'r cyfweliadau*

3.3 Pan fydd sawl dan amheuaeth yn cyrraedd ystafell gyfweld neu'n cyrraedd lleoliad lle fydd y cyfweliad yn cael ei gynnal, bydd y cyfwelydd, heb oedi ond yng ngolwg y sawl dan amheuaeth, yn datod neu'n agor y cyfrwng recordio newydd a'i osod i recordio.

3.4 Rhaid i'r cyfwelydd ddangos yr arwydd neu'r dangosydd sy'n dangos bod y cyfarpar recordio ymlaen ac yn recordio (gweler *paragraff 1.6(a)(i)*) ac yna bydd yn:

(a) dweud wrth y sawl dan amheuaeth bod sain y cyfweliad yn cael ei recordio gan ddefnyddio dyfais *cyfrwng recordio symudol* ac amlinellu'r broses recordio (gweler *Nodyn 3A*);

(b) yn unol â *pharagraff 1.13*, rhaid iddo ddweud ei enw a lefel ei swydd ac unrhyw gyfwelydd arall sy'n bresennol;

(c) gofyn i'r sawl dan amheuaeth ac unrhyw un arall sy'n bresennol, e.e. yr oedolyn priodol, cyfreithiwr neu gyfieithydd, i adnabod eu hunain (gweler *Nodyn 3A*);

(d) nodi dyddiad, amser dechrau a lleoliad y cyfweliad;

(e) dweud wrth y sawl dan amheuaeth:

- y caiff gopi o recordiad y cyfweliad os caiff ei gyhuddo neu'n cael gwybod y caiff ei erlyn, ond os nad yw'n cael ei gyhuddo neu'n cael gwybod y caiff ei erlyn, yna dim ond copi a gaiff fel y cytunwyd gyda'r heddlu neu ar y gorchymyn llys; a
- chaiff hysbysiad ysgrifenedig ar ddiwedd y cyfweliad yn nodi ei hawl i gael copi o'r recordiad a beth fydd yn digwydd i'r recordiad a;

(f) os oes cyfarpar monitro cyfweliadau o bell fel y disgrifir ym *mharagraff 2.6* yn cael ei ddefnyddio, eglurwch gynnwys yr hysbysiad i'r sawl dan amheuaeth, cyfreithiwr a'r oedolyn priodol fel sy'n ofynnol gan *baragraff 2.6(d)* a dangoswch fod y golau yn goleuo'n awtomatig cyn gynted ag y bod monitro o bell yn dechrau.

3.5 Bydd y cyfwelydd yn gofyn i unrhyw un sy'n dod i mewn i'r ystafell gyfweld ar ôl i'r cyfweliad ddechrau adnabod ei hun at ddiben y recordiad sain a nodi'r rheswm pam bod yr unigolyn wedi dod i mewn i'r ystafell gyfweld.

3.6 Bydd y cyfwelydd yn:

- rhoi rhybudd i'r sawl dan amheuaeth, gweler Cod C *adran 10*; ac
- os ydy'r unigolyn yn cael ei gadw yn y ddalfa, yn ei atgoffa o'i hawl am gyngor cyfreithiol am ddim, gweler Cod C, *paragraff 11.2*; neu
- os nad yw'r unigolyn yn y ddalfa wedi'i arestio, eglurwch hyn a'i hawl am gyngor cyfreithiol am ddim (gweler Cod C, *paragraff 3.21*) a gofynnwch i'r sawl dan amheuaeth gadarnhau ei fod yn cytuno i barhau â'r cyfweliad gwirfoddol (gweler *Cod C paragraff 3.22A*).

3.7 Bydd y cyfwelydd yn rhoi unrhyw ddatganiad sylweddol neu dawelwch gerbron y sawl dan amheuaeth, gweler Cod C, *paragraff 11.4*.

### *(C) Cyfweliadau gyda rhai dan amheuaeth y tybir bod ganddynt nam ar y clyw*

3.8 Os tybir bod gan y sawl dan amheuaeth nam ar y clyw, bydd y cyfwelydd yn gwneud nodyn ysgrifenedig o'r cyfweliad yn unol â Chod C, ar yr un pryd â'r recordiad sain sy'n unol â'r Cod hwn. (Gweler *Nodiadau 3B* a *3C*.)

### *(D) Gwrthwynebiadau a chwynion gan y sawl sydd dan amheuaeth*

3.9 Os yw'r sawl dan amheuaeth neu oedolyn priodol ar ei ran yn gwrthwynebu recordio sain y cyfweliad naill ai o'r cychwyn cyntaf, yn ystod y cyfweliad neu yn ystod seibiant, bydd y cyfwelydd yn egluro bod sain y cyfweliad yn cael ei recordio a bod y Cod hwn yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r gwrthwynebiadau gael eu recordio ar y recordiad sain. Pan gaiff unrhyw wrthwynebiadau eu cofnodi ar recordiad sain neu fod y sawl dan amheuaeth neu'r oedolyn priodol wedi gwrthod recordio eu gwrthwynebiadau, bydd y swyddog perthnasol yn penderfynu, yn unol â *pharagraff 2.3(d)* (sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r swyddog ystyried natur ac amgylchiadau'r gwrthwynebiadau) a ddylid gwneud cofnod ysgrifenedig o'r cyfweliad neu ei barhad ac y dylid diffodd y ddyfais recordio sain. Ar l penderfynu gwneud cofnod ysgrifenedig, bydd y cyfwelydd yn datgan ei fod yn diffodd y recordiwr ac yna'n gwneud cofnod ysgrifenedig o'r cyfweliad yn unol Chod C, adran 11. Os, fodd bynnag, ar l penderfynu na ddylid gwneud cofnod ysgrifenedig, mae gan y cyfwelydd yr hawl i barhau i gwestiynu'r sawl dan amheuaeth gyda'r ddyfais recordio yn dal i fod ymlaen. Mae'r weithdrefn hon hefyd yn berthnasol mewn achosion lle mae'r sawl dan amheuaeth wedi gwrthwynebu'r cyfweliad yn cael ei recordio ar fideo, gweler Cod F *paragraff 2.7*, ac mae'r swyddog ymchwilio wedi penderfynu recordio sain y cyfweliad. (Gweler *Nodiadau 2F* a *3E*.)

3.10 Os gwneir cwyn gan neu ar ran yr un a gyfwelir yn ystod y cyfweliad ynghylch darpariaethau'r Cod hwn neu unrhyw god arall, neu os bydd yn dod i sylw'r cyfwelydd y gallai'r sawl sy'n cael ei gyfweld fod wedi ei drin yn amhriodol, dylai'r cyfwelydd weithredu yn unol â Chod C, *paragraff 12.9*. (Gweler *Nodiadau 3E a 3F*.)

3.11 Os bydd y sawl dan amheuaeth yn dangos ei fod eisiau dweud wrth y cyfwelydd am faterion nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'r drosedd y mae dan amheuaeth amdani ac nad yw'n dymuno i sain y materion hyn gael ei recordio, dylid rhoi cyfle i'r sawl dan amheuaeth i ddweud wrth y cyfwelydd am y materion hyn ar ôl terfynu'r cyfweliad ffurfiol.

### *(E) Newid y cyfrwng recordio*

3.12 Pan mae'r ddyfais recordio yn dangos mai dim ond cyfnod byr o amser sydd ar ôl yn y cyfrwng recordio, bydd y cyfwelydd yn rhoi gwybod i'r sawl sy'n cael ei gyfweld ac yn dirwyn y rhan honno o'r cyfweliad i ben. Os yw'r cyfwelydd yn gadael yr ystafell i gasglu cyfrwng recordio arall, ni ddylid gadael y sawl dan amheuaeth ar ei ben ei hun. Bydd y cyfwelydd yn tynnu'r cyfrwng recordio o'r recordiwr ac yn gosod y cyfrwng recordio newydd a fydd yn cael ei ddatod neu ei agor gyda'r sawl dan amheuaeth yn bresennol. Dylid gosod y recordiwr i recordio ar y cyfrwng newydd. I osgoi dryswch rhwng y cyfryngau recordio, bydd y cyfwelydd yn marcio'r cyfrwng gyda rhif adnabod yn syth ar ôl ei dynnu o'r recordiwr.

### *(F) Cymryd seibiant yn ystod cyfweliad*

3.13 Pan gymerir seibiant, rhaid cofnodi ar y recordiad sain y cymerir seibiant, y rheswm dros hynny a'r amser.

3.14 Pan gymerir seibiant a bydd y sawl dan amheuaeth yn gadael yr ystafell gyfweld, bydd y cyfrwng recordio yn cael ei dynnu o'r recordiwr a dylid dilyn y gweithdrefnau ar gyfer terfynu cyfweliad, gweler *paragraff 3.19*.

3.15 Mewn achos o seibiant byr ac mae'r sawl dan amheuaeth a'r cyfwelydd yn aros yn yr ystafell gyfweld, gellir stopio'r recordio. Nid oes angen tynnu'r cyfrwng recordio a phan fydd y cyfweliad yn ailddechrau dylai'r recordiad barhau ar yr un cyfrwng recordio. Bydd yr amser mae'r cyfweliad yn ailddechrau yn cael ei recordio ar y recordiad sain.

3.16 Ar ôl unrhyw seibiant yn y cyfweliad, rhaid i'r cyfwelydd, cyn ailddechrau'r cyfweliad, atgoffa'r unigolyn sy'n cael ei gwestiynu o'i hawl am gyngor cyfreithiol os nad yw wedi'i ddefnyddio a'i fod yn parhau i fod dan rybudd neu, os oes unrhyw amheuaeth, dylid nodi'r rhybudd yn llawn unwaith eto. (Gweler *Nodyn 3G*.)

E

### *(G) Offer recordio yn torri*

3.17 Os bydd offer yn torri ac y gellir ei drwsio yn syth, e.e. drwy osod cyfrwng recordio newydd, bydd y cyfwelydd yn dilyn y gweithdrefnau priodol yn unol â *pharagraff 3.12*. Pan fydd y recordio yn ailddechrau, bydd y cyfwelydd yn egluro beth ddigwyddodd ac yn cofnodi'r amser y mae'r cyfweliad yn ailddechrau. Fodd bynnag, os nad yw'n bosibl parhau i recordio gan ddefnyddio'r un ddyfais recordio neu ddyfais arall, dylid recordio sain y cyfweliad gan ddefnyddio dyfais rhwydwaith recordio digidol diogel fel y nodir ym *mharagraff 4.1*, os yw'r offer angenrheidiol ar gael. Os nad yw ar gael, gellir parhau â'r cyfweliad a'i gofnodi yn ysgrifenedig yn unol â *pharagraff 2.3* yn ôl cyfarwyddyd gan y 'swyddog perthnasol'. (Gweler *Nodyn 3H*.)

### *(H) Tynnu'r cyfrwng recordio o'r recordiwr*

3.18 Bydd unrhyw gyfrwng recordio a dynnir o'r recordiwr yn ystod cyfweliad yn cael ei gadw a bydd y gweithdrefnau ym *mharagraff 3.12* yn cael eu dilyn.

### *(I) Terfynu'r cyfweliad*

3.19 Wrth derfynu cyfweliad, cynigir cyfle i'r sawl dan amheuaeth i egluro unrhyw beth a ddywedodd a gofynnir iddo a oes unrhyw beth arall yr hoffai ei ychwanegu.

3.20 Wrth derfynu cyfweliad, gan gynnwys cymryd unrhyw ddatganiad ysgrifenedig a'i adrodd yn ôl, bydd yr amser yn cael ei recordio a bydd y recordiad yn cael ei derfynu. Bydd y cyfwelydd yn selio'r prif recordiad gyda label prif recordiad a'i drin fel arddangosyn yn unol â gorchmynion yr heddlu. Bydd y cyfwelydd yn llofnodi'r label ac yn gofyn i'r sawl dan amheuaeth ac unrhyw un arall sy'n bresennol yn y cyfweliad i'w arwyddo. Os yw'r sawl dan amheuaeth neu unrhyw un arall yn gwrthod arwyddo label, bydd swyddog ar o leiaf lefel arolygydd, neu swyddog y ddalfa os nad yw ar gael, neu sarjant os nad yw'r sawl dan amheuaeth wedi'i arestio, yn cael ei alw i'r ystafell gyfweld a gofynnir iddo ei arwyddo, yn unol â *pharagraff 1.13*.

3.21 Rhoddir hysbysiad i'r sawl dan amheuaeth sy'n egluro'r canlynol:

- sut fydd y recordiad sain yn cael ei ddefnyddio;
- y trefniadau i gael mynediad ato;
- os bydd yr unigolyn yn cael ei gyhuddo neu'n cael gwybod y bydd yn cael ei erlyn, rhoddir copi o'r recordiad sain iddo cyn gynted ag sy'n ymarferol neu fel y cytunir fel arall rhwng y sawl dan amheuaeth a'r heddlu neu fel y nodir ar y gorchymyn llys.

### *(J) Ar ôl y cyfweliad*

3.22 Bydd y cyfwelydd yn gwneud nodyn yn ei lyfr cofnod bod y cyfweliad wedi'i gynnal a bod ei sain wedi'i recordio, yr amser a ddechreuodd y cyfweliad, ei hyd a'r dyddiad a rhif adnabod y prif recordiad (gweler *Nodyn 3I*).

3.23 Os nad oes gweithdrefnau dilynol mewn perthynas â'r unigolyn y recordiwyd ei gyfweliad, rhaid cadw'r cyfrwng recordio yn ddiogel yn unol â *pharagraff 3.22* a *Nodyn 3J*.

### *(K) Diogelu'r Prif Recordiad*

#### *(i) Cyffredinol*

3.24 Bydd y swyddog sy'n rheoli bob gorsaf heddlu lle recordir cyfweliadau gyda'r rheiny dan amheuaeth neu fel y ceir achos o'r fath, lle mae recordiadau o gyfweliadau a gynhaliwyd yn rhywle arall heblaw am orsaf heddlu yn cael eu cadw, yn gwneud trefniadau i brif recordiadau gael eu cadw'n ddiogel a bod eu symudiadau yn cael eu hegluro ar yr un sail â deunydd y gellir ei ddefnyddio at ddibenion tystiolaethol, yn unol â gorchmynion yr heddlu. (Gweler *Nodyn 3J*.)

#### *(ii) Torri sêl prif recordiad ar gyfer gweithdrefnau troseddol*

3.25 Nid oes gan swyddog yr heddlu awdurdod i dorri sêl prif recordiad sydd ei angen ar gyfer prawf troseddol neu weithdrefnau apelio. Os yw cael mynediad at y prif recordiad yn hanfodol, bydd swyddog yr heddlu yn trefnu i dorri ei sêl gyda chynrychiolydd o Wasanaeth Erlyn y Goron yn bresennol. Dylai'r diffynnydd neu ei gynrychiolydd cyfreithiol gael gwybod a chael cyfle rhesymol i fod yn bresennol. Os yw'r diffynnydd neu ei gynrychiolydd cyfreithiol yn bresennol, gwahoddir nhw i ail-selio ac arwyddo'r prif recordiad. Os yw'r naill neu'r llall yn gwrthod neu os nad yw'r un ohonynt yn bresennol, dylid gwneud hyn gan gynrychiolydd o Wasanaeth Erlyn y Goron. (Gweler *Nodiadau 3K* a *3L*.)

E

***(iii) Torri sêl y prif recordiad: achosion eraill***

3.26 Mae prif swyddog heddlu yn gyfrifol am sefydlu trefniadau i dorri sêl prif recordiad lle nad oes gweithdrefnau troseddol yn dilyn, neu mae'r gweithdrefnau troseddol y mae'r cyfweliad yn berthnasol iddynt wedi'u terfynu ac mae'n dod yn angenrheidiol i dorri'r sêl. Dylai'r trefniadau hyn fod y rheiny mae'r prif swyddog yn eu hystyried yn rhesymol angenrheidiol i arddangos i'r unigolyn sy'n cael ei gyfweld ac unrhyw un arall a allai ddymuno defnyddio neu gyfeirio at recordiad y cyfweliad nad oes neb wedi ymyrryd â'r prif recordiad a bod recordiad y cyfweliad yn parhau i fod yn fanwl gywir. (Gweler *Nodyn 3M*.)

3.27 Yn unol â *pharagraff 3.29*, rhaid rhoi cyfle rhesymol i gynrychiolydd bob ochr fod yn bresennol pan gaiff y sêl ei thorri a'r prif recordiad ei gopïo a'i ail-selio.

3.28 Os nad yw un neu fwy o'r partïon yn bresennol pan dorrir sêl y prif recordiad oherwydd na ellir cysylltu â nhw neu oherwydd eu bod wedi gwrthod mynychu neu fod *paragraff 3.29* yn berthnasol, dylid gwneud trefniadau i unigolyn annibynnol megis ymwelydd â'r ddalfa fod yn bresennol. Fel arall, neu fel dull diogelu ychwanegol, dylid gwneud trefniadau i recordio'r weithdrefn ar fideo.

3.29 Nid yw *paragraff 3.28* yn ei gwneud hi'n ofynnol i unigolyn gael cyfle i fod yn bresennol pan;

(a) mae'n angenrheidiol torri sêl y prif recordiad er mwyn ymchwilio ymhellach yn briodol ac effeithiol i'r drosedd wreiddiol neu i ymchwilio i drosedd arall; a

(b) bod gan y swyddog sy'n rheoli'r ymchwiliad seiliau rhesymol i amau y gallai caniatáu cyfle niweidio ymchwiliad neu weithdrefnau troseddol o'r fath a all ddeillio o hynny neu beryglu unrhyw un. (Gweler *Nodyn 3N*.)

***(iv) Dogfennaeth***

3.30 Pan fydd sêl y prif recordiad wedi'i thorri, rhaid gwneud cofnod o'r weithdrefn a ddilynwyd, gan gynnwys y dyddiad, amser, y lle a'r unigolion yn bresennol.

***Nodiadau Arweiniad***

*Dechrau cyfweliadau (paragraff 3.3)*

*3A Wrth amlinellu'r broses recordio, dylai'r cyfwelydd gyfeirio at baragraff 1.6(a)(ii) a (iii) a disgrifio'n gryno sut mae'r ddyfais recordio a ddefnyddir yn cael ei gweithredu a sut gwneir recordiadau. At ddiben adnabod lleisiau, dylai'r cyfwelydd ofyn i'r sawl dan amheuaeth ac unrhyw un arall sy'n bresennol i adnabod eu hunain.*

*Cyfweliadau gyda rhai dan amheuaeth y tybir bod ganddynt nam ar y clyw (paragraff 3.8)*

*3B Diben y ddarpariaeth hon yw rhoi hawl mynediad at record lawn y cyfweliad cyn belled â bod hyn yn bosibl drwy recordio sain i unigolyn sy'n fyddar neu sydd â nam ar y clyw.*

*3C Mae darpariaethau Cod C mewn perthynas â chyfieithwyr ar gyfer rheiny dan amheuaeth y tybir nad ydynt yn siarad neu'n deall Saesneg neu y tybir bod ganddynt nam ar y clyw neu leferydd, yn parhau i fod yn berthnasol.*

*Gwrthwynebiadau a chwynion gan y sawl sydd dan amheuaeth (paragraff 3.9)*

*3D Dylai'r swyddog perthnasol fod yn ymwybodol y gallai'r penderfyniad i barhau i recordio yn erbyn dymuniad y sawl dan amheuaeth fod yn bwnc sylw yn y llys.*

*3E Os gelwir ar swyddog y llys, neu sarjant yn achos unigolyn nad yw wedi'i arestio, i ymdrin â'r gŵyn, os yn bosibl dylai'r recordiwr gael ei gadw ymlaen nes bod y swyddog wedi dod i mewn i'r ystafell a siarad gyda'r unigolyn sy'n cael ei gyfweld. Penderfyniad y cyfwelydd fydd parhau neu derfynu'r cyfweliad yn dibynnu ar gamau gweithredu arolygydd dan God C, paragraff 9.2.*

*3F Os yw'r gŵyn yn ymwneud â mater nad yw'n gysylltiedig â'r Cod hwn neu God C, yna penderfyniad y cyfwelydd yw parhau. Pan mae'r cyfwelydd yn penderfynu parhau â'r cyfweliad, bydd yn dweud wrth y sawl dan amheuaeth mai ar ddiwedd y cyfweliad y bydd y gŵyn yn dod i sylw swyddog y ddalfa, neu sarjant lle nad yw'r unigolyn wedi'i arestio. Pan derfynir y cyfweliad, rhaid i'r cyfwelydd roi gwybod i swyddog y ddalfa, neu'r sarjant fel y ceir achos o'r fath, am fodolaeth a natur y gŵyn a wnaed cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.*

E

3G *Wrth ystyried a ddylid cyflwyno'r rhybudd eto ar ôl seibiant, dylai'r cyfwelydd gadw mewn cof y mae'n bosibl y bydd rhaid iddo fodloni llys bod yr unigolyn yn deall ei fod yn dal i fod dan rybudd pan ailddechreuodd y cyfweliad. Dylai'r cyfwelydd hefyd gofio y gallai fod yn angenrheidiol dangos i'r llys na ddigwyddodd unrhyw beth yn ystod seibiant neu rhwng cyfweliadau a ddylanwadodd ar y dystiolaeth a gofnodwyd gan y sawl dan amheuaeth. Ar ôl seibiant neu ar ddechrau cyfweliad dilynol, dylai'r cyfwelydd ystyried rhoi crynodeb ar y recordiad o'r rheswm dros y seibiant a chadarnhau hyn gyda'r sawl dan amheuaeth.*

*Offer recordio yn torri (paragraff 3.17)*

3H *Lle mae'r cyfweliad yn cael ei recordio ac mae'r cyfrwng neu'r offer recordio yn torri, dylai'r cyfwelydd ildio'r cyfweliad yn syth. Lle mae rhan o'r cyfweliad heb ei effeithio gan y gwall ac mae'n dal yn hygyrch ar y cyfrwng, bydd y rhan honno yn cael ei chopïo a'i selio fel prif recordiad gyda'r sawl dan amheuaeth yn bresennol a bydd y cyfweliad yn ailddechrau gydag offer/cyfrwng newydd yn ôl yr angen. Lle mae cynnwys y cyfweliad wedi'i golli yn gyfan gwbl, dylai'r cyfrwng gael ei selio gyda'r sawl dan amheuaeth yn bresennol a dylid dechrau'r cyfweliad eto. Os na ellir trwsio'r offer recordio ac nad oes offer arall ar gael yn syth, yn unol â pharagraff 2.3, dylid recordio'r cyfweliad yn unol â Chod C, adran 11.*

3I *Dylid gwneud unrhyw gofnod ysgrifenedig o gyfweliad y recordiwyd ei sain yn unol â'r canllawiau cenedlaethol cyfredol i swyddogion yr heddlu, staff yr heddlu ac erlynyddion Gwasanaeth Erlyn y Goron sydd ynghlwm â gwaith paratoi, prosesu a chyflwyno ffeiliau'r erlyniad.*

*Diogelwch y Prif Recordiad (paragraffau 3.24 i 3.30)*

3J *Mae'r adran hon yn ymwneud â diogelwch y prif recordiad a gafodd ei selio ar ddiwedd y cyfweliad. Rhaid cymryd gofal wrth ddefnyddio copïau o'r recordiadau gwaith oherwydd gall eu colli neu eu dinistrio arwain at yr angen i gael mynediad dianghenraid at brif recordiadau.*

*Torri sêl prif recordiad ar gyfer gweithdrefnau troseddol (paragraff 3.25)*

3K *Os yw'r prif recordiad wedi'i anfon at lys y goron i'w gadw ar ôl traddodi am brawf, bydd erlynydd y goron yn gwneud cais i brif glerc canolfan llys y goron i ryddhau'r recordiad er mwyn torri ei sêl gan erlynydd y goron.*

3L *Dylid cyfeirio at Wasanaeth Erlyn y Goron neu erlynydd y goron yn rhan hon y Cod i gynnwys unrhyw gorff neu unigolyn arall sydd â chyfrifoldeb statudol am y gweithdrefnau y mae angen cyfweliad a recordiwyd yr heddlu mewn perthynas â nhw.*

*Torri sêl y prif recordiad: achosion eraill (paragraffau 3.26 i 3.29)*

3M *Mae'r rhesymau mwyaf cyffredin dros yr angen am fynediad at brif recordiadau nad ydynt eu hangen ar gyfer gweithdrefnau troseddol yn codi o gamau gweithredu sifil a chwynion yn erbyn yr heddlu a chamau gweithredu sifil rhwng unigolion sy'n deillio o honiadau o drosedd yr ymchwilir iddynt gan yr heddlu.*

3N *Gallai paragraff 3.29(b) fod yn berthnasol, er enghraifft, pan mae un neu fwy o'r canlyniadau yn debygol gall canlyniadau'r ymchwiliad gynnwys y canlynol; (i) erlyn un neu fwy o'r unigolion gwreiddiol dan amheuaeth; (ii) erlyn rhywun nad oedd dan amheuaeth yn flaenorol, gan gynnwys rhywun a oedd yn dyst yn wreiddiol, a (iii) unrhyw un dan amheuaeth yn wreiddiol a oedd yn cael ei drin fel tyst yr erlyniad a lle gall datgelu'n gynnar unrhyw gam gweithredu gan yr heddlu, yn enwedig drwy gysylltu ag unrhyw un o'r unigolion ynghlwm, arwain at risg gwirioneddol o gyfaddawdu'r ymchwiliad a rhoi'r tystion mewn perygl.*

## 4 Recordiad cyfweliad yn defnyddio dyfais rhwydwaith recordio digidol diogel.

### *(A) Cyffredinol*

4.1 Nid yw dyfais rhwydwaith recordio digidol awdurdodedig (gweler *paragraff 1.6(a)(iii)*) yn defnyddio cyfrwng symudol ac mae'r adran hon yn manylu'r darpariaethau a fydd yn berthnasol pan ddefnyddir dyfais o'r fath. Er mwyn hwyluso cyfeirio, mae'n ailadrodd yn llawn rhai o'r darpariaethau yn adran 3 sy'n berthnasol i'r ddau fath o'r dyfeisiau recordio.

E

### *(B) Dechrau'r cyfweliadau*

4.2 Pan fydd sawl dan amheuaeth yn cyrraedd ystafell gyfweld neu'n cyrraedd lleoliad lle fydd y cyfweliad yn cael ei gynnal, bydd y cyfwelydd, heb oedi ac yng ngolwg y sawl dan amheuaeth, yn rhoi'r offer recordio ymlaen ac, yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, yn dechrau recordio.

4.3 Rhaid i'r cyfwelydd ddangos yr arwydd neu'r dangosydd sy'n dangos bod y cyfarpar recordio ymlaen ac yn recordio (gweler *paragraff 1.6(a)(iii)*) ac yna bydd yn:

(a) dweud wrth y sawl dan amheuaeth bod sain y cyfweliad yn cael ei recordio gan ddefnyddio *dyfais rhwydwaith recordio digidol diogel* ac yn amlinellu'r broses recordio (gweler *Nodyn 3A*);

(b) yn unol â *pharagraff 1.13*, rhaid iddo ddweud ei enw a lefel ei swydd ac unrhyw gyfwelydd arall sy'n bresennol;

(c) gofyn i'r sawl dan amheuaeth ac unrhyw un arall sy'n bresennol, e.e. yr oedolyn priodol, cyfreithiwr neu gyfieithydd, i adnabod eu hunain (gweler *Nodyn 3A*);

(d) nodi dyddiad, amser dechrau a lleoliad y cyfweliad; a

(e) rhoi gwybod i'r unigolyn:

- y caiff hawl mynediad at recordiad y cyfweliad os caiff ei gyhuddo neu'n cael gwybod y caiff ei erlyn, ond os nad yw'n cael ei gyhuddo neu'n cael gwybod y caiff ei erlyn, yna dim ond hawl mynediad a gaiff fel y cytunwyd gyda'r heddlu neu ar y gorchymyn llys; a
- chaiff hysbysiad ysgrifenedig ar ddiwedd y cyfweliad yn nodi ei hawl i gael mynediad at y recordiad a beth fydd yn digwydd i'r recordiad.

(f) Os oes cyfarpar monitro cyfweliadau o bell fel y disgrifir ym *mharagraff 2.6* wedi'i fewnosod, eglurwch gynnwys yr hysbysiad i'r sawl dan amheuaeth, cyfreithiwr a'r oedolyn priodol fel sy'n ofynnol gan *baragraff 2.6(d)* a dangoswch fod y golau yn goleuo'n awtomatig cyn gynted ag y bod monitro o bell yn dechrau.

4.4 *Paragraffau 3.5* i *3.7* yn berthnasol.

### *(C) Cyfweliadau gyda rhai dan amheuaeth y tybir bod ganddynt nam ar y clyw*

4.5 *Paragraff 3.8* yn berthnasol.

### *(D) Gwrthwynebiadau a chwynion gan y sawl sydd dan amheuaeth Paragraffau*

4.6 *3.9, 3.10 a 3.11* yn berthnasol.

### *(E) Cymryd seibiant yn ystod cyfweliad*

4.7 Pan gymerir seibiant, rhaid cofnodi ar y recordiad sain y cymerir seibiant, y rheswm dros hynny a'r amser. Bydd y recordiad yn cael ei ildio a'r gweithdrefnau ym *mharagraffau 4.11* a *4.12* yn cael eu dilyn er mwyn terfynu'r cyfweliad.

4.8 Pan fydd y cyfweliad yn ailddechrau, bydd y gweithdrefnau ym *mharagraffau 4.2* i *4.3* ar gyfer dechrau cyfweliad yn cael eu dilyn i greu ffeil newydd i recordio gweddill y cyfweliad. Bydd amser ailddechrau'r cyfweliad yn cael ei gofnodi ar y recordiad sain.

4.9 Ar ôl unrhyw seibiant yn y cyfweliad, rhaid i'r cyfwelydd, cyn ailddechrau'r cyfweliad, atgoffa'r unigolyn sy'n cael ei gwestiynu o'i hawl am gyngor cyfreithiol os nad yw wedi'i ddefnyddio a'i fod yn parhau i fod dan rybudd neu, os oes unrhyw amheuaeth, dylid nodi'r rhybudd yn llawn unwaith eto (gweler *Nodyn 3G*).

### *(F) Offer recordio yn torri*

4.10 Os bydd offer yn torri ac y gellir ei drwsio yn syth, e.e. drwy osod rhwydwaith recordio digidol diogel newydd gan ddefnyddio'r un ddyfais neu ddyfais arall, bydd y cyfwelydd yn dilyn y gweithdrefnau priodol yn unol â *pharagraffau 4.7 i 4.9* (*Cymryd seibiant yn ystod cyfweliad*). Pan fydd y recordio yn ailddechrau, bydd y cyfwelydd yn egluro beth ddigwyddodd ac yn cofnodi'r amser mae'r cyfweliad yn ailddechrau. Fodd bynnag, os nad yw'n bosibl parhau i recordio gan ddefnyddio'r un ddyfais recordio neu ddyfais arall, dylid recordio sain y cyfweliad gan ddefnyddio cyfrwng symudol fel y nodir ym *mharagraff 3.3*, os yw'r offer hanfodol ar gael. Os nad yw ar gael, gellir parhau â'r cyfweliad a'i gofnodi yn ysgrifenedig yn unol â *pharagraff 2.3* yn ôl cyfarwyddyd gan y 'swyddog perthnasol'. (Gweler *Nodyn 3H*.)

### *(G) Terfynu'r cyfweliad*

4.11 Wrth derfynu cyfweliad, cynigir cyfle i'r sawl dan amheuaeth i egluro unrhyw beth a ddywedodd a gofynnir iddo a oes unrhyw beth arall yr hoffai ei ychwanegu.

4.12 Wrth derfynu cyfweliad, gan gynnwys cymryd unrhyw ddatganiad ysgrifenedig a'i adrodd yn ôl:

(a) bydd yr amser yn cael ei gofnodi ar lafar.

(b) rhoddir hysbysiad i'r sawl dan amheuaeth (gweler *Nodyn 4A*) sy'n egluro'r canlynol:

- sut fydd y recordiad sain yn cael ei ddefnyddio
- y trefniadau i gael mynediad ato
- y caiff hawl mynediad at recordiad y cyfweliad, naill ei'n electronig neu drwy gael copi ar gyfrwng recordio symudol, os caiff ei gyhuddo neu'n cael gwybod y caiff ei erlyn, ond os nad yw'n cael ei gyhuddo neu'n cael gwybod y caiff ei erlyn, yna caiff fynediad fel y cytunwyd gyda'r heddlu neu'r gorchymyn llys.

(c) rhaid gofyn i'r sawl dan amheuaeth gadarnhau ei fod wedi cael copi o'r hysbysiad yn *is-baragraff (b)* uchod. Os yw'r sawl dan amheuaeth yn methu â derbyn neu gydnabod ei fod wedi derbyn yr hysbysiad, bydd y cyfwelydd yn nodi ar gyfer y recordiad bod copi o'r hysbysiad wedi'i ddarparu i'r sawl dan amheuaeth a'i fod ef neu hi wedi gwrthod cymryd copi o'r hysbysiad neu wedi gwrthod cydnabod ei fod wedi'i dderbyn.

(d) bydd yr amser yn cael ei gofnodi a bydd y cyfwelydd yn sicrhau bod recordiad o'r cyfweliad yn cael ei arbed ar y ddyfais gyda'r sawl dan amheuaeth ac unrhyw drydydd parti yn bresennol yn ystod y cyfweliad, ac yn rhoi gwybod iddynt yn unol â hynny. Yna, rhaid i'r cyfwelydd egluro y bydd y recordiad yn cael ei drosglwyddo'n ddiogel i'r gweinydd ffeiliau rhwydwaith o bell (gweler *paragraff 4.15*). Os yw'r offer ar gael i alluogi trosglwyddo'r recordiad bryd hynny gyda'r sawl dan amheuaeth yn bresennol, yna dylid ei drosglwyddo yn unol â hynny. Os caiff ei drosglwyddo yn ddiweddarach, rhaid cofnodi amser a lle y trosglwyddiad. Yna dylid rhoi gwybod i'r sawl dan amheuaeth bod y cyfweliad wedi dod i ben.

### *(H) Ar ôl y cyfweliad*

4.13 Bydd y cyfwelydd yn gwneud nodyn yn ei lyfr cofnod bod y cyfweliad wedi'i gynnal a bod ei sain wedi'i recordio, yr amser y dechreuodd y cyfweliad, ei hyd a'r dyddiad a'r rhif adnabod, enw'r ffeil neu gyfeiriad arall ar gyfer y recordiad (gweler *Nodyn 3I*).

4.14 Os nad oes gweithdrefnau dilynol mewn perthynas â'r unigolyn y recordiwyd ei gyfweliad, rhaid cadw'r recordiadau yn ddiogel yn unol â pharagraff *4.15* a *4.16*.

### *(I) Diogelwch cofnodion cyfweliad rhwydwaith digidol diogel*

4.15 Yn gyntaf, caiff y recordiadau eu harbed yn lleol ar y ddyfais cyn cael eu trosglwyddo i'r system weinydd ffeiliau rhwydwaith o bell (gweler *paragraff 1.6(a)(iii)*). Bydd y recordiad yn parhau i fod ar y ddyfais leol nes bod y trosglwyddiad wedi'i gwblhau. Os, am unrhyw reswm, fydd y cysylltiad rhwydwaith yn methu, bydd y recordiad yn cael ei drosglwyddo pan fydd y cysylltiad rhwydwaith wedi'i hadfer (gweler *paragraff 4.12(d)*). Caiff ffeiliau'r recordiadau cyfweliad eu storio ar ffurf darllen yn unig ar ddyfeisiau storio ansymudol, er enghraifft, gweinyddion disg caled, i sicrhau eu cywirdeb.

4.16 Rhaid rheoli a monitro'n fanwl mynediadau at recordiadau cyfweliad, gan gynnwys copïo i gyfrwng symudol, er mwyn sicrhau bod mynediad wedi'i gyfyngu i'r rheiny sydd wedi cael caniatâd penodol i gael mynediad at ddibenion penodol pan mae hyn yn angenrheidiol. Er enghraifft, swyddogion yr heddlu a chyfreithwyr Gwasanaeth Erlyn y Goron sydd ynghlwm â gwaith paratoi unrhyw achos erlyniad, unigolion y cyfwelwyd os ydynt wedi'u cyhuddo neu wedi cael gwybod y gellir eu herlyn, a'u cynrychiolwyr cyfreithiol.

### *Nodyn Arweiniad*

*4A Dylai'r hysbysiad ym mharagraff 4.12(b) uchod ddarparu eglurhad cryno o'r rhwydwaith digidol diogel a sut mae mynediad at y recordiad wedi'i gyfyngu'n llym. Dylai'r hysbysiad hefyd egluro hawliau mynediad y sawl dan amheuaeth, ei gynrychiolydd cyfreithiol, yr heddlu a'r erlynydd at recordiad o'r cyfweliad. Dylid darparu lle ar y ffurflen i nodi'r dyddiad, y rhif adnabod, enw'r ffeil neu unrhyw gyfeiriad arall ar gyfer recordiad y cyfweliad.*

E

**ATODIAD: PARAGRAFF 2.4(c)(iii) – PEDWAR MATH O DROSEDD DDITIADWY LLE GALLAI'R CYFWELYDD BENDERFYNU CYMRYD COFNOD YSGRIFENEDIG O GYFWELIAD GWIRFODDOL YN RHYWLE ARALL YN HYTRACH NA MEWN GORSAF HEDDLU PAN NA ELLIR DEFNYDDIO DYFAIS RECORDIO CLYWEDOL AWDURDODEDIG.**

[Gweler Nodiadau 2 a 3]

***Rhan 1: Pedwar math o drosedd dditiadwy benodol - dau amod***

1. Yr amod **cyntaf** yw bod y drosedd dditiadwy y mae'r unigolyn wedi'i rybuddio mewn perthynas â hi yn *un* o'r canlynol:

   (a) Bod ym meddiant cyffur a reolir yn groes i adran 5(2) Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 os mai canabis yw'r cyffur fel y diffinnir gan y Ddeddf honno ac ar ffurf a adnabyddir yn gyffredin fel canabis gwair neu resin canabis (gweler *Nodyn 5*);

   (b) Bod ym meddiant cyffur a reolir yn groes i adran 5(2) Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 os mai khat yw'r cyffur fel y diffinnir gan y Ddeddf honno (gweler *Nodyn 5*);

   (c) Lladrata manwerthu (siopladrad) yn groes i adran 1 Deddf Dwyn 1968 (gweler *Nodyn 6*); a

   (d) Difrod troseddol i eiddo yn groes i adran 1(1) Deddf Difrod Troseddol 1971 (gweler *Nodyn 6*), ac yn y paragraff hwn, mae cyfeiriad at bob un o'r troseddau uchod yn berthnasol i ymgais i gyflawni'r trosedd hwnnw fel y diffinnir gan adran 1 Deddf Ymgeisiau Troseddol 1981.

2. Yr **ail** amod yw:

   (a) lle mae unigolyn wedi'i rybuddio mewn perthynas â throsedd a ddisgrifiwyd ym *mharagraff 1(a)* (Bod ym meddiant canabis gwair neu resin canabis) neu *baragraff 1(b)* (Bod ym meddiant khat), bod gofynion *paragraffau 3* a *4* yn cael eu bodloni; neu

   (b) lle mae rhywun wedi'i rybuddio mewn perthynas â throsedd a ddisgrifiwyd ym *mharagraff 1(c)* (Lladrata manwerthu), bod gofynion paragraffau *3* a *5* yn cael eu bodloni; neu

   (c) lle mae rhywun wedi'i rybuddio mewn perthynas â throsedd a ddisgrifiwyd ym *mharagraff 1(d)* (difrod troseddol), bod gofynion *paragraffau 3* a *6* yn cael eu bodloni.

3. Mae gofynion y paragraff hwn sy'n berthnasol i'r pedair trosedd a ddisgrifiwyd ym *mharagraff 1* fel a ganlyn:

   (i) mewn perthynas â'r unigolyn dan amheuaeth o gyflawni'r drosedd:

   - ymddengys ei fod yn 18 oed neu drosodd;
   - nid oes rheswm i amau ei fod yn unigolyn bregus y mae angen oedolyn bregus ar ei gyfer (gweler *paragraff 1.5* y Cod hwn);
   - nad yw'n ymddangos analluog i ddeall yr hyn sy'n digwydd oherwydd effeithiau diod, cyffuriau neu salwch, anhwylder neu gyflwr;
   - nad oes angen cyfieithydd arno yn unol â *Chod C adran 13*; ac
   - yn unol â Chod G (Arestio), nid yw ei arestio yn angenrheidiol er mwyn ymchwilio i'r trosedd;

   (ii) ymddengys bod comisiynu'r drosedd:

   - *heb* arwain at unrhyw anaf i unrhyw un;
   - *heb* gynnwys bygythiad gwirioneddol neu risg anaf i unrhyw un; a
   - *heb* achosi unrhyw golled ariannol neu ddeunydd sylweddol i eiddo preifat unrhyw un; a

   (iii) nad yw'r unigolyn yn cael ei gyfweld yng nghyswllt unrhyw drosedd arall. Gweler *Nodiadau 3* a *8*.

4. Gofynion y paragraff hwn sy'n berthnasol i'r troseddau a ddisgrifiwyd ym *mharagraff 1(a)* (bod ym meddiant canabis gwair neu resin canabis) a *pharagraff 1(b)* (bod ym meddiant khat) yw bod swyddog yr heddlu sy'n brofiadol wrth gydnabod edrychiad, gwead ac arogl ffisegol canabis gwair, resin canabis neu (fel y ceir achos o'r fath) khat, yn gallu dweud bod y sylwedd a ganfuwyd ym meddiant y sawl dan amheuaeth gan y swyddog hwnnw neu, fel y ceir achosion, gan unrhyw

E

swyddog arall nad yw mor brofiadol a hyfforddedig:

(i) yn gyffur a reolir, naill ai canabis gwair, resin canabis neu khat; a

(ii) bod swm y sylwedd a ganfuwyd yn gyson â defnydd personol gan y sawl dan amheuaeth ac nad yw'n rhoi unrhyw sail i amau bwriad i gyflenwi eraill.

Gweler *Nodyn 5*.

5. Gofynion y paragraff hwn sy'n berthnasol i'r drosedd a ddisgrifiwyd ym *mharagraff 1(c)* (lladrata manwerthu), yw ei bod hi'n ymddangos i'r swyddog:

(i) nad yw gwerth yr eiddo a gafodd ei ddwyn yn fwy na £100 gan gynnwys TAW;

(ii) bod yr eiddo wedi'i ddwyn wedi'i adfer ac yn dal i fod yn addas i'w werthu oni bai bod yr eitemau a gafodd eu dwyn yn ddiod neu fwyd ac wedi'u bwyta/yfed; a

(iii) nad yw'r unigolyn dan amheuaeth o ddwyn yr eiddo mewn gwaith (boed yn waith taledig ai peidio) gan yr unigolyn, cwmni neu sefydliad sy'n berchen ar yr eiddo.

Gweler *Nodyn 3*.

6. Gofynion y paragraff hwn sy'n berthnasol i'r drosedd a ddisgrifiwyd ym *mharagraff 1(d)* (Difrod troseddol), yw ei bod hi'n ymddangos i'r swyddog:

(i) nad yw gwerth y difrod troseddol yn fwy na £300;

(ii) nad yw'r unigolyn dan amheuaeth o ddifrodi'r eiddo mewn gwaith (boed yn waith taledig ai peidio) gan yr unigolyn, cwmni neu sefydliad sy'n berchen ar yr eiddo.

Gweler *Nodyn 3*.

***Rhan 2: Darpariaethau eraill yn berthnasol i holl gyfweliadau sydd ynghlwm â'r Atodiad hwn***

7. Mae *paragraffau 3.21* i *3.22B* Cod C yn nodi cyfrifoldebau'r swyddog cyfweld er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â darpariaethau Cod C sy'n berthnasol i waith cynnal a recordio cyfweliadau gwirfoddol sy'n berthnasol i'r Atodiad hwn. Gweler *Nodyn 7*.

8. Os ymddengys i'r swyddog cyfweld cyn i'r cyfweliad ddod i ben bod unrhyw un o'r gofynion ym *mharagraffau 3 i 6 Rhan 1* sy'n berthnasol i'r drosedd dan sylw a ddisgrifiwyd ym *mharagraff 1* Rhan 1 wedi peidio â bod yn berthnasol; bydd yr Atodiad hwn yn peidio â bod yn berthnasol. Rhaid rhoi gwybod am hynny i'r sawl sy'n cael ei gyfweld a rhaid cymryd seibiant yn y cyfweliad. Rhaid cofnodi'r rheswm yng nghofnod ysgrifenedig y cyfweliad a bydd sain parhad y cyfweliad yn cael ei recordio yn unol ag adran 2 y Cod hwn. At ddibenion parhau, bydd darpariaethau *paragraffau 3.3* a *4.2* (Dechrau cyfweliadau) yn berthnasol. Gweler *Nodyn 8*.

***Nodiadau Arweiniad***

*1 Ni ddefnyddiwyd.*

*2 Diben caniatu'r cyfwelydd i benderfynu y dylid gwneud cofnod ysgrifenedig yw er mwyn cefnogi'r polisi sy'n rhoi opsiynau i heddluoedd yng Nghymru a Lloegr er mwyn ymdrin throseddau lefel isel yn sydyn ac anfiwrocratiaeth mewn modd cymesurol. Mae canllaw i heddluoedd ynglŷn â'r opsiynau hyn ar gael yn: https://www.app.college.police.uk/app-content/prosecution-and-case-management/justice- outcomes/.*

*3 Mae penderfyniad mewn perthynas throsedd dditiadwy benodol y mae amodau a gofynion yr Atodiad hwn wedi'u bodloni yn fater gweithredol ar gyfer y swyddog cyfweld yn l amgylchiadau penodol yr achos. Mae'r amgylchiadau hyn yn cynnwys canlyniad ymchwiliad y swyddog ar y pryd ac unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol i ystyriaeth y swyddog ynglŷn â sut i ymdrin â'r mater.*

*4 Ni ddefnyddiwyd.*

*5 Dan Ddeddf Camdrin Cyffuriau 1971 ac fel y dyddiad y daw'r Cod hwn i rym:*

*(a) mae canabis yn cynnwys unrhyw ran o'r planhigyn canabis ond nid coesau aeddfed a hadau sydd wedi'u gwahanu oddi wrth y planhigyn, resin canabis ac olew canabis, ond mae paragraff 1(a) yn berthnasol yn unig i fod ym meddiant canabis gwair a resin canabis; ac*

*(b) mae khat yn cynnwys dail, coes a blagur y planhigyn.*

6 *Mae'r grym i gyhoeddi Hysbysiad Cosb am Anhrefn am drosedd yn groes i adran 1 Deddf Dwyn 1968 yn berthnasol pan nad yw gwerth y nwyddau a gafodd eu dwyn yn fwy na £100, gan gynnwys TAW. Mae'r grym i gyhoeddi Hysbysiad Cosb am Anhrefn am drosedd yn groes i adran 1(1) Deddf Difrod Troseddol 1971 yn berthnasol pan nad yw gwerth y difrod yn fwy na £300.*

7 *Mae darpariaethau Cod C sy'n berthnasol i gynnal a recordio cyfweliadau gwirfoddol sy'n berthnasol i'r Atodiad hwn wedi'u disgrifio ym mharagraffau 3.21 i 3.22B Cod C. Maent yn cynnwys hawl y sawl dan amheuaeth am gyngor cyfreithiol am ddim, cael gwybodaeth am y drosedd cyn y cyfweliad (gweler Cod C paragraff 11.1A) a'r hawl i gael cyfieithydd ar y pryd a chyfieithiad (gweler Cod C adran 13). Mae'r rhain a hawliau a hawliadau eraill wedi'u crynhoi yn yr hysbysiad y mae'n rhaid ei roi i'r sawl dan amheuaeth.*

8 *Ni fydd gofynion paragraff 3 Rhan 1 yn berthnasol bellach os, er enghraifft yn ystod cyfweliad, o ganlyniad i'r hyn mae'r sawl dan amheuaeth yn ei ddweud neu wybodaeth arall sy'n dod i sylw'r swyddog cyfweld:*

- *ymddengys bod y sawl dan amheuaeth:*
  - ~ *dan 18 oed;*
  - ~ *angen oedolyn priodol;*
  - ~ *ddim yn gallu gwerthfawrogi arwyddocâd y cwestiynau a'u hatebion;*
  - ~ *ddim yn gallu deall beth sy'n digwydd oherwydd effeithiau diod, cyffuriau neu salwch, anhwylder neu gyflwr; neu*
  - ~ *angen cyfieithydd; neu*
- *bod swyddog yr heddlu yn penderfynu bod arestio'r sawl dan amheuaeth bellach yn angenrheidiol (gweler Cod G).*

DEDDF YR HEDDLU A THYSTIOLAETH DROSEDDOL 1984

COD F

WEDI'I DDIWYGIO

# COD YMARFER AR GYFER RECORDIO CYFWELIADAU AR FIDEO GYDA SAIN GYDA PHOBL DAN AMHEUAETH

**Cychwyniad - Trefniadau Trosiannol**

Dylid ystyried cynnwys y Cod hwn os yw cyfwelydd yn cynnig recordio cyfweliad ar fideo gyda sain gydag unigolyn dan amheuaeth a rôl 00.00 ar 31 Gorffennaf 2018.

Nid oes gofyniad statudol dan PACE i recordio cyfweliadau ar fideo.

F

## Cynnwys - Cod F

**1 Cyffredinol . . . 3**

*Nodiadau Arweiniad*. . . 3

**2. Pa bryd y ceir recordio cyfweliadau a materion sy'n berthnasol i Cod F ar fideo gyda sain a darpariaethau ar gyfer eu cynnal a'u recordio.. . . 4**

(A) Cyffredinol. . . 4

(B) Cymhwyso Cod E - darpariaethau ychwanegol sy'n berthnasol i recordio ar fideo gyda sain. 4

(i) Cyffredinol . . . 4

(ii) Gwrthwynebiadau a chwynion gan y sawl sydd dan amheuaeth am recordio ar fideo . . . 5

(iii) Dyfais recordio ar fideo yn torri . . . 5

*Nodiadau Arweiniad*. . . 5

F

## 1 Cyffredinol

1.0 Rhaid defnyddio'r gweithdrefnau yn y Cod hwn yn deg, yn gyfrifol, gyda pharch tuag at y bobl y maent yn berthnasol iddynt a heb wahaniaethu anghyfreithlon. Dan Ddeddf Gydraddoldeb 2010, adran 149 (Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus), rhaid i heddluoedd, wrth gyflawni eu swyddogaethau, dalu sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiadau eraill a waherddir o dan y Ddeddf, i hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r sawl nad ydynt, a meithrin perthynas dda rhwng y bobl hynny. Mae'r Ddeddf Gydraddoldeb hefyd yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i swyddogion yr heddlu wahaniaethu yn erbyn, aflonyddu neu erlid unrhyw un ar sail y 'nodweddion gwarchodedig', sef oed, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth wrth ddefnyddio eu pwerau. Gweler *Nodyn 1C*.

1.1 Mae'n rhaid i'r Cod Ymarfer hwn fod ar gael yn hwylus ar gyfer dibenion ymgynghori gan swyddogion yr heddlu a staff arall yr heddlu, yr unigolion yn y ddalfa ac aelodau'r cyhoedd.

1.2 Nid yw'r Nodiadau Arweiniad sy'n gynwysedig yn ddarpariaethau o'r cod hwn. Maent yn cynnig arweiniad i swyddogion yr heddlu ac eraill ynglŷn â'i ddefnydd a'i ddehongliad.

1.3 Nid oes unrhyw beth yn y Cod hwn a all ddisodli gofynion Cod C, y Cod Ymarfer ar gyfer cadw, trin a holi pobl gan swyddogion yr heddlu.

1.4 Disgrifir y cyfweliadau a materion eraill sy'n berthnasol i'r Cod hwn a'r darpariaethau sy'n arwain y gwaith o gynnal a recordio'r cyfweliadau hynny a materion eraill yn adran 2.

Sylwer: Nid yw darpariaethau'r Cod hwn a Chod E sy'n arwain y gwaith o gynnal a recordio'r cyfweliadau yn berthnasol i gyfweliadau gyda thystion, neu gymryd datganiadau ganddynt.

1.5 *Ni ddefnyddiwyd.*

1.5A Mae darpariaethau Cod E sy'n gofyn recordio sain cyfweliadau gyda'r rhai dan amheuaeth a darpariaethau'r Cod hwn sy'n caniatáu fideo ar yr un pryd yn darparu diogelwch:

- i'r rhai dan amheuaeth yn erbyn recordio anghywir o'r geiriau a ddefnyddiwyd wrth iddynt gael eu cwestiynu a'u hymddygiad yn ystod y cyfweliad; ac
- i gyfwelwyr yr heddlu yn erbyn honiadau di-sail gan y rhai dan amheuaeth, neu ar eu rhan, ynglŷn â sut y cynhaliwyd y cyfweliad a beth ddigwyddodd yn ystod y cyfweliad a all fel arall ymddangos yn gredadwy.

Felly, rhaid recordio cyfweliadau ar fideo yn agored i roi hyder yn ei ddibynadwyedd fel cofnod diduedd a manwl gywir o'r cyfweliad.

1.6 *Ni ddefnyddiwyd.*

1.6A *Ni ddefnyddiwyd.*

1.7 *Ni ddefnyddiwyd.*

1.8 *Ni ddefnyddiwyd.*

***Nodiadau Arweiniad***

*1A* *Ni ddefnyddiwyd.*

*1B* *Ni ddefnyddiwyd.*

*1C* *Ym mharagraff 1.0, dan Ddeddf Gydraddoldeb 2010, adran 149, y 'nodweddion gwarchodedig perthnasol' yw: oed, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd/cred a rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Am ragor o arweiniad a chyngor manwl ar y Ddeddf Gydraddoldeb, gweler: https://www.gov.uk/guidance/equality-act-2010-guidance.*

F

## 2. Pa bryd y ceir recordio cyfweliadau a materion sy'n berthnasol i Cod F ar fideo gyda sain a darpariaethau ar gyfer eu cynnal a'u recordio.

### *(A) Cyffredinol*

2.1 At ddiben y Cod hwn, mae recordiad ar fideo gyda sain yn golygu recordiad sain o gyfweliad neu fater arall a wnaed yn unol â'r gofyniad ym *mharagraff 2.1* y Cod Ymarfer ar gyfer recordio sain cyfweliadau gyda phobl dan amheuaeth (Cod E) (gweler *Nodyn 2A*) lle gwneir recordiad fideo *ar yr un pryd* sy'n dangos y sawl dan amheuaeth, y cyfwelydd a'r rheiny a oedd yn bresennol pan wnaethpwyd y recordiad sain.

2.2 Nid oes gofyniad statudol i wneud recordiad ar fideo, fodd bynnag, bydd darpariaethau'r Cod hwn yn cael eu dilyn mewn unrhyw achos lle mae'r 'swyddog perthnasol' a ddisgrifir yng *Nghod E paragraff 2.4* yn ystyried y dylid gwneud recordiad gweledol o unrhyw faterion a grybwyllwyd ym *mharagraff 2.1*. O ystyried y dulliau diogelu a ddisgrifiwyd ym *mharagraff 1.5A*, mae enghreifftiau o achlysuron lle mae'r swyddog perthnasol yn debygol o ystyried y dylid gwneud recordiad ar fideo yn cynnwys y canlynol:

(a) pan mae'r sawl dan amheuaeth (boed yn y ddalfa ai peidio) angen oedolyn priodol;

(b) mae'r sawl dan amheuaeth neu ei gyfreithiwr neu oedolyn priodol yn gofyn am gael recordio'r cyfweliad ar fideo;

(c) mae'r sawl dan amheuaeth neu unrhyw un arall sy'n bresennol yn fyddar neu'n fyddar/dall neu mae ganddo nam ar y lleferydd ac yn defnyddio iaith arwyddion i gyfathrebu;

(d) mae'r cyfwelydd yn rhagweld mai wrth holi'r sawl dan amheuaeth am ei ymglymiad â'r drosedd dan sylw, y bydd yn gwahodd y sawl dan amheuaeth i arddangos ei weithredoedd neu ymddygiad ar y pryd neu i archwilio eitem neu wrthrych penodol a roddir iddo;

(e) bod y swyddog sy'n rheoli'r ymchwiliad yn credu y byddai recordiad gweledol gyda sain yn cynorthwyo'r ymchwiliad. Er enghraifft, wrth roi briff i swyddogion eraill am y sawl dan amheuaeth neu faterion sy'n cael eu hamlygu yn ystod y cyfweliad; a

(f) bod y ddyfais recordio awdurdodedig a fyddai'n cael ei defnyddio yn unol â *pharagraff 2.1 Cod E* yn ymgorffori camera ac yn creu recordiad clywedol a gweledol cyfunol ac nad yw'n caniatáu i'r swyddogaeth recordio gweledol weithredu heb y swyddogaeth recordio clywedol.

2.3 At ddiben gwneud recordiad gweledol o'r fath, bydd darpariaethau Cod E a'r Nodiadau Arweiniad perthnasol yr un mor gymwys i recordiadau gweledol gyda sain ag y maent i recordiadau clywedol yn unig, yn amodol ar y darpariaethau ychwanegol ym *mharagraffau 2.5* i *2.12* isod sy'n berthnasol yn arbennig i recordiadau gweledol. (Gweler Nodyn 2E.)

2.4 Nid yw'r Cod hwn yn berthnasol i waith cynnal a recordio y canlynol yng Nghymru a Lloegr:

- cyfweliadau gydag unigolion yn y ddalfa dan adran 41 o, neu Atodlen 7 i, Ddeddf Terfysgaeth 2000, a
- chwestiynu ar ôl cyhuddo unigolyn a awdurdodwyd dan adran 22 Deddf Gwrthderfysgaeth 2008.

Rhaid recordio'r rhain ar fideo gyda sain yn unol â darpariaethau'r Cod Ymarfer unigol a gyhoeddwyd dan baragraff 3 o Atodlen 8 o'r Ddeddf Terfysgaeth 2000 a dan adran 25 Deddf Gwrthderfysgaeth 2008. Yn ystod cyfweliad neu gwestiynu sy'n cael ei recordio'n weledol dan y Cod hwn, os daw'n amlwg y dylai'r cyfweliad neu gwestiynu gael ei gynnal dan God gwahanol, dylid parhau â'r cyfweliad yn unol â'r Cod hwnnw'n unig (gweler *Cod E paragraff 1.4*).

### *(B) Cymhwyso Cod E - darpariaethau ychwanegol sy'n berthnasol i recordio ar fideo gyda sain.*

### *(i) Cyffredinol*

2.5 Cyn i'r gwaith recordio gweledol ddechrau, rhaid i'r cyfwelydd roi gwybod i'r sawl dan amheuaeth mai yn unol â *pharagraff 2.2*, bod recordiad gweledol yn cael ei wneud a dylid egluro'r trefniadau recordio gweledol a chlywedol. Os yw'r sawl dan amheuaeth yn ifanc neu'n fregus (gweler Cod C, *paragraffau 1.4, 1.5* a *1.13(d)*), rhaid darparu'r wybodaeth a'r eglurhad neu (fel y ceir achos o'r fath) eu darparu eto ym mhresenoldeb yr oedolyn priodol.

F

2.6 Rhaid i'r ddyfais a ddefnyddir i wneud y recordiad gweledol ar yr un pryd â'r recordiad sain (gweler *paragraff 2.1*) weld hynny o'r ystafell neu'r lleoliad lle cynhelir y cyfweliad ag sy'n ymarferol bosibl ei gyflawni wrth i'r cyfweliad gael ei gynnal (gweler *Nodyn 2B*).

2.7 Mewn achosion lle mae *paragraff 1.13* Cod E (datgelu hunaniaeth swyddogion neu staff yr heddlu sy'n cynnal cyfweliadau) yn berthnasol:

(a) gall cefnau'r swyddogion a'r staff wynebu'r ddyfais recordio gweledol; a

(b) phan, yn unol â Chod E *paragraff 3.21* neu *4.12* fel maent yn berthnasol i'r Cod hwn, y gwneir trefniadau i'r sawl dan amheuaeth gael mynediad at y recordiad gweledol, gall y swyddog ymchwilio drefnu i guddio unrhyw beth yn y recordiad a all ganiatáu i'r swyddogion neu staff yr heddlu gael eu hadnabod.

2.8 Yn dilyn penderfyniad gan y swyddog perthnasol yn unol â *pharagraff 2.2* y dylid recordio cyfweliad neu unrhyw fater arall a grybwyllwyd ym *mharagraff 2.1* yn *weledol*, gall y swyddog perthnasol benderfynu na ddylid recordio'r cyfweliad yn weledol os nad yw'n ymddangos bellach y dylid gwneud recordiad gweledol neu oherwydd nam yn y ddyfais recordio. Fodd bynnag, nid yw penderfyniad i beidio â gwneud *recordiad gweledol* yn disodli mewn unrhyw ffordd y gofyniad i *recordio sain* y cyfweliad yn unol â *pharagraff 2.1 Cod E*. (Gweler *Nodyn 2C*.)

2.9 Mae darpariaethau *Cod E paragraff 2.6* ar gyfer monitro cyfweliadau o bell yn berthnasol i gyfweliadau sy'n cael eu recordio'n weledol.

***(ii) Gwrthwynebiadau a chwynion gan y sawl sydd dan amheuaeth am recordio ar fideo***

2.10 Os yw'r sawl dan amheuaeth neu oedolyn priodol ar ei ran yn gwrthwynebu recordio cyfweliad *ar fideo* naill ai o'r cychwyn cyntaf, yn ystod y cyfweliad neu yn ystod seibiant, bydd y cyfwelydd yn egluro bod y cyfweliad yn cael ei recordio ar fideo yn unol â *pharagraff 2.2* a bod y Cod hwn yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r gwrthwynebiadau gael eu recordio ar y recordiad *gweledol*. Pan gaiff unrhyw wrthwynebiadau eu cofnodi neu fod y sawl dan amheuaeth neu'r oedolyn priodol wedi gwrthod recordio eu gwrthwynebiadau ar fideo, bydd y swyddog perthnasol yn penderfynu, yn unol â *pharagraff 2.8* a gan ystyried natur ac amgylchiadau'r gwrthwynebiadau a ddylid diffodd y ddyfais recordio gweledol (gweler *Nodyn 2D*). Yn dilyn penderfyniad i ddiffodd y recordiad ar fideo, dylai'r cyfwelydd ddatgan ei fod yn diffodd y recordiad *gweledol*. Bydd y recordiad sain y mae'n rhaid ei gynnal yn unol â Chod E yn parhau a bydd y cyfwelydd yn gofyn i'r unigolyn i gofnodi ei wrthwynebiad i recordio'r cyfweliad ar fideo ar y recordiad clywedol. Os yw'r swyddog perthnasol yn ystyried na ddylid diffodd y recordiad gweledol, mae gan y cyfwelydd yr hawl i barhau i holi'r sawl dan amheuaeth gyda'r recordiad fideo ymlaen. Os yw'r sawl dan amheuaeth yn gwrthwynebu recordio sain y cyfweliad, bydd *paragraff 3.9* Cod E yn berthnasol os oes dyfais cyfrwng recordio symudol (gweler Cod E *paragraff 1.6(a)(ii)*) yn cael ei defnyddio a bydd *paragraff 4.6* Cod E yn berthnasol os yw dyfais recordio digidol diogel (gweler Cod E *paragraff 1.6(a)(iii)*) yn cael ei defnyddio.

2.11 Os bydd y sawl dan amheuaeth yn dangos ei fod eisiau dweud wrth y cyfwelydd am faterion nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'r drosedd y mae dan amheuaeth amdani ac nad yw'n dymuno i'r materion hyn gael eu recordio ar fideo, dylid rhoi cyfle i'r sawl dan amheuaeth i ddweud wrth y cyfwelydd am y materion hyn ar ôl terfynu'r cyfweliad ffurfiol.

***(iii) Dyfais recordio ar fideo yn torri***

2.12 Os yw'r offer yn torri ac nad yw'n bosibl parhau i recordio ar fideo gan ddefnyddio'r un math o ddyfais recordio (h.y. dyfais cyfrwng recordio symudol fel a nodwyd yng Nghod E *paragraff 1.6(a)(ii)* neu ddyfais rhwydwaith recordio digidol diogel fel y nodwyd yng Nghod E *paragraff 1.6(a)(iii)*) neu gan ddefnyddio dyfais arall o unrhyw fath, gall y swyddog perthnasol benderfynu parhau â'r cyfweliad heb ei recordio ar fideo. Yn yr amgylchiadau hyn, rhaid cynnal a recordio gweddill y cyfweliad yn unol â darpariaethau Cod E (Gweler *Nodyn 2F*.)

***Nodiadau Arweiniad***

*2A Mae paragraff 2.1 Cod E yn disgrifio'r gofyniad y dylid defnyddio dyfeisiau recordio sain awdurdodedig i recordio cyfweliadau a materion eraill.*

*2B Bydd cyfwelwyr yn dymuno trefnu bod, cyn belled â phosibl, trefniadau recordio ar fideo yn*

F

*anymwthiol. Rhaid ei gwneud hi'n glir i'r sawl dan amheuaeth, fodd bynnag, nad oes cyfle i ymyrryd gyda'r offer recordio neu'r cyfrwng recordio.*

*2C* *Gall penderfyniad a wneir yn unol â pharagraff 2.8 i beidio â recordio cyfweliad ar fideo am unrhyw reswm fod yn destun sylw yn y llys. Felly, dylai'r 'swyddog perthnasol' sy'n gyfrifol fod yn barod i gyfiawnhau'r penderfyniad hwnnw.*

*2D* *Mae gwrthwynebiadau at ddiben paragraff 2.10 i fod yn berthnasol i'r gwrthwynebiadau ar sail credoau go iawn ac onest y sawl dan amheuaeth ac i ganiatáu swyddogion i ddefnyddio eu hawl i benderfynu y dylid gwneud recordiad gweledol o'r cyfweliad yn ôl yr amgylchiadau sydd ynghlwm â'r sawl dan amheuaeth a'r ymchwiliad. Ni fyddai gwrthwynebiadau sy'n ymddangos yn ofer ac sydd â'r bwriad o rwystro neu oedi'r ymchwiliad yn berthnasol.*

*2E* *Gellir defnyddio'r recordiad ar fideo a wneir yn unol â'r Cod hwn at ddibenion gweithdrefnau adnabod tystion sy'n berthnasol i baragraff 3.21 ac Atodiad E Cod D.*

*2F* *Lle mae'r cyfweliad yn cael ei recordio ar fideo ac mae'r cyfrwng neu'r ddyfais recordio yn torri, dylai'r cyfweldd stopio'r cyfweliad yn syth. Lle mae rhan o'r cyfweliad heb ei effeithio gan y gwall ac mae'n dal yn hygyrch ar y cyfrwng neu ar y ddyfais rhwydwaith, bydd y rhan honno yn cael ei chopïo a'i selio fel prif recordiad neu'n cael ei harbed fel recordiad rhwydwaith ddigidol ddiogel newydd fel sy'n briodol gyda'r sawl dan amheuaeth yn bresennol. Yna dylid ailddechrau'r cyfweliad gan ddefnyddio dyfais recordio sy'n gweithio a chyfrwng recordio newydd fel sy'n briodol. Lle mae cynnwys y cyfweliad wedi'i golli yn gyfan gwbl, dylai'r cyfrwng gael ei selio gyda'r sawl dan amheuaeth yn bresennol a dylid dechrau'r cyfweliad eto. Os na ellir trwsio'r offer recordio ar fideo ac nad oes dyfais arall ar gael yn syth, dylid recordio sain y cyfweliad yn unol â Chod E.*

*2G* *Dylai'r swyddog perthnasol fod yn ymwybodol y gallai'r penderfyniad i barhau i recordio ar fideo yn erbyn dymuniad y sawl dan amheuaeth fod yn bwnc sylw yn y llys.*